**Rhif: WG45022**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen ymgynghori

# Treth Gyngor Decach

Rydym yn ceisio eich barn yn yr Ymgynghoriad Cam 1 hwn ar becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru, fel y man cychwyn ar daith tuag at system decach a mwy blaengar.

Dyddiad cyhoeddi: **12 Gorffennaf 2022**

Camau gweithredu: Ymatebion erbyn **4 Hydref 2022**

OGL © Hawlfraint y Goron

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno eich ymateb erbyn hanner nos **nos Lun 4 Hydref 2022** mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ar-lein a'i hanfon dros e-bost i LGFR.ymgyngoriadau@llyw.cymru.
- Lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ar-lein a'i phostio at:

Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad hwn ar gael yma. Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ac ieithoedd eraill ar gael pan wneir cais amdanynt.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGFR.ymgyngoriadau@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


Treth Gyngor Decach .......... 5
Gweledigaeth .......... 5
System y Dreth Gyngor .......... 6
Y Bandiau a'r Cyfraddau Treth .......... 9
Disgowntiau, Personau a Ddiystyrir, Eithriadau a Phremiymau .......... 21
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor .......... 28
Cwestiynau'r Ymgynghoriad .......... 34
Atodiad A: Amrywiadau Daearyddol yn y Sylfaen Drethu .......... 37
Atodiad B: Rhestr o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau 39
Atodiad C: Fframwaith Cyfreithiol y Dreth Gyngor .......... 43

# Treth Gyngor Decach

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu treth gyngor decach a mwy blaengar. Gwneir yr ymrwymiad hwn yn ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau a rhwydweithiau lleol sy'n gynrychiadol o bobl Cymru i gyd-ddylunio system sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau cyfoeth.

Rydym yn ceisio eich barn yn yr **Ymgynghoriad Cam 1** hwn ar becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru fel y man cychwyn ar daith tuag at system decach a mwy blaengar. Cynhelir ymgynghoriad Cam 2 ar gynigion manylach maes o law.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei lansio wrth i aelwydydd wynebu argyfwng costau byw sy'n gwaethygu. Fel Llywodraeth rydym bob amser wedi canolbwyntio ar helpu pobl gyda chostau bob dydd drwy amrywiaeth eang o raglenni sy'n rhoi arian yn ôl mewn pocedi: prydau ysgol, gofal plant, costau gofalu a chartrefi cynnes, yn ogystal â helpu cannoedd ar filoedd o bobl yn uniongyrchol i dalu biliau treth gyngor bob blwyddyn. Ers dechrau'r argyfwng rydym wedi buddsoddi £330 miliwn mewn cymorth ychwanegol a byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu. Bydd diwygiadau i'r dreth gyngor – sy'n fil domestig pwysig – yn digwydd dros y tymor hwy ac, felly, nid ydynt yn ateb uniongyrchol i'r argyfwng presennol. Fodd bynnag, dyma'r math o newid a fydd yn helpu llawer o aelwydydd i ymdopi'n well â'r digwyddiadau hyn yn y dyfodol wrth inni greu Cymru decach.

# Gweledigaeth

- Ailgydbwyso'r baich treth ar aelwydydd
- Ariannu gwasanaethau sydd o fudd i bawb
- Diweddariadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dreth yn parhau i fod yn deg yn y dyfodol
- Treth sy'n cysylltu pobl â chymunedau.

**Beth mae'r dreth gyngor yn ei olygu i chi...?**

Mae'r dreth gyngor yn helpu i ariannu ysgolion, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau tân ac achub, plismona a channoedd o wasanaethau cymunedol eraill.

Hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio'r gwasanaethau hyn eich hun, rydych yn cyfrannu at gymdeithas well sy'n dod â manteision i bob un ohonom.

Mae bron i hanner yr aelwydydd yng Nghymru yn cael rhyw fath o ddisgownt neu ostyngiad.

Mae'r dreth gyngor yn cyfrif am tua un rhan o bump o gyfanswm gwariant cynghorau.


# System y Dreth Gyngor

Y dreth gyngor yw democratiaeth leol ar waith. Fel trethdalwyr, gyda'n gilydd rydym yn darparu mwy na £2 biliwn y flwyddyn tuag at y £10 biliwn y mae'n ei gostio i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol ledled Cymru: gan gadw ysgolion ar agor, sicrhau y gofelir am anwyliaid a galluogi ein cymunedau i ffynnu. Mae cannoedd o wasanaethau lleol a ariennir yn rhannol drwy'r dreth gyngor, nid dim ond gwasanaethau cynghorau, ond gwasanaethau'r heddlu a gwasanaethau tân hefyd.

Mae pobl leol wedi cyfrannu at wasanaethau yn y gymuned ers y 1600au. Rydym yn talu treth fel dyletswydd ddinesig ac yn teimlo'n angerddol amdani. Rydym yn ethol cynghorwyr lleol i'n cynrychioli wrth wneud penderfyniadau ynghylch treth a gwariant.

Ond, weithiau, nid oes fawr ddim ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano. Mewn arolwg diweddar nododd 50% o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y dreth gyngor, os o gwbl. Mae eich cyfraniadau yn helpu i ariannu addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf, fel dau o feysydd gwariant mwyaf cynghorau (gweler Ffigur 1).

**Ffigur 1: Cyfran gwariant cynghorau ar wasanaethau**




Mae system y dreth gyngor wedi sefyll prawf amser ers iddi gael ei chyflwyno yn 1993. Mae'n dreth effeithlon a sefydlog iawn â chostau gweinyddol isel a lefelau isel o dwyll. Ar y cyfan, mae pobl yn dra chyfarwydd â hi, oherwydd ei strwythur a'i hirhoedledd. Ac, am ei bod yn seiliedig ar ased sefydlog fel eiddo, mae'n llawer anoddach i'w hosgoi o gymharu â mathau eraill o drethi. Credwn ei bod yn bwysig cael treth sy'n seiliedig ar leoedd sy'n ein cysylltu â'n hardaloedd lleol lle y gwneir penderfyniadau gwario.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae system y dreth gyngor yn gosod mwy o faich treth ar aelwydydd â lefelau is o gyfoeth ac nid yw'r bandiau treth wedi'u diweddaru ers bron i 20 mlynedd, sy'n golygu nad yw'r dreth a dalwn yn adlewyrchu ein hamgylchiadau mwyach. Gallai'r system gael ei gwella a'i moderneiddio mewn sawl

ffordd. Roedd 57% o'r ymatebwyr i'r un arolwg yn anghytuno â'r gosodiad bod ‘system y dreth gyngor yn deg’.

**Dyna pam rydym yn gwneud newidiadau. Rydym am glywed eich barn chi.**

- Rydym yn awyddus i ailgydbwyso cyfoeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- Rydym am gael treth sy'n cysylltu pobl â chymunedau ac sydd o fudd i bawb.
- Rydym am iddi gael ei diweddaru'n fwy rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn decach i bawb.

## Ar beth y dylai'r dreth gyngor fod yn seiliedig?

Rhwng 2017 a 2021, gwnaethom gynnal rhaglen helaeth o ymchwil a chyhoeddi ein canfyddiadau. Gwnaethom ystyried a ddylai trethi lleol fod yn seiliedig ar eiddo, tri neu incymau, neu gyfuniad o bethau. Ar hyn o bryd, mae'r dreth gyngor yn seiliedig ar elfennau ar bob un o'r tri. Mae'r bandiau yn adlewyrchu gwerth eiddo a thir yn hytrach nag incymau am resymau da. Gall lefelau osgoi trethi fod yn uwch yn achos trethi incwm, am ei bod yn haws i rai ffynonellau o incwm gael eu cuddio neu eu symud gan y rhai sydd â'r gallu i wneud hynny, tra mae eiddo yn ased sefydlog i ardal leol. Yn y DU, caiff ein hincymau eu trethu gan sefydliadau eraill at ddibenion gwahanol.

Yn ein barn ni, mae meddiannu eiddo yn ddangosydd cyffredinol da o gyfoeth pobl o'u cymharu â'i gilydd, yn ogystal â bod yn fesur pendant, syml a lleol. Mae'r cartrefi rydym yn byw ynddynt hefyd yn ddangosydd o faint aelwyd ac, felly, y galw cymharol am wasanaethau. Rydym yn cydnabod nad yw'n berffaith, am fod llawer o resymau dros faint a lleoliad yr eiddo rydym yn dewis fod yn berchen arno neu ei rentu. Fodd bynnag, mae i'r dreth gyngor elfennau pwysig sy'n ystyried incwm, megis gostyngiad oedolyn sengl a chymorth i aelwydydd incwm isel. Am y tro, credwn fod y dull hwn o weithredu yn sicrhau'r cydbwysedd cywir heb danseilio sefydlogrwydd na thegwch.

## Yr hyn a gwmpesir gan y diwygiadau i'r dreth gyngor

Mae'r Ymgynghoriad Cam 1 hwn yn ceisio barn ar becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor fel y man cychwyn ar daith tuag at wneud y system yn decach ac yn fwy blaengar. Cynhelir ymgynghoriad Cam 2 ar gynigion manylach maes o law. Rydym yn ceisio barn ar y canlynol:

- Cwblhau ymarfer ailbrisio mewn perthynas â phob un o'r 1.5 miliwn o eiddo yng Nghymru er mwyn ailgydbwyso'r system i adlewyrchu gwerth eiddo. Mae'r bandiau presennol yn seiliedig ar wybodaeth o fis Ebrill 2003 ac nid ydynt wedi'u diweddaru ers bron i 20 mlynedd. Os yw gwerth eich eiddo wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf, nid yw hyn, o reidrwydd, yn golygu y byddai eich bil treth gyngor yn cynyddu. Byddai ymarfer ailbrisio yn diweddaru band treth pawb a byddem yn dewis set newydd o fandiau yn seiliedig ar y data diweddaraf.

- Byddai ymarfer ailbrisio yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu bandiau treth newydd a dewis cyfraddau treth newydd ar gyfer pob band, er mwyn creu treth decach. Gallai hyn gynnwys ychwanegu bandiau at ben uchaf a phen isaf y raddfa er mwyn dosbarthu eiddo yn fwy manwl.

- Rydym am sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y dyfodol drwy gynnal, am y tro cyntaf yn hanes y dreth gyngor, gylchoedd ailbrisio treigl er mwyn sicrhau bod y dreth gyngor yn parhau i gael ei dosbarthu'n deg yn fwy rheolaidd.
- Byddwn yn gwella'r fframwaith cymhleth o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'n nodau.
- Byddwn yn gwella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel.
- Byddwn yn sicrhau y caiff hawliau pobl eu diogelu ac yn creu gwasanaeth tryloyw sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer yr oes ddigidol.
- Byddwn yn parhau i ystyried dulliau amgen o ymdrin â'r dreth gyngor i'w hystyried yn y tymor hwy, megis treth gwerth tir leol neu systemau heb fandiau.

## Map ffordd i dreth gyngor decach

Chwefror 2021: Cyhoeddwyd gwaith ymchwil
Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau

↓

Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio

↓

Rhagfyr 2021: Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn nodi cwmpas y diwygiadau

↓

**Gorffennaf 2022: Ymgynghoriad Cam 1 yn ceisio eich barn**

↓

Prisiadau eiddo, ymgysylltu a datblygu cynigion

↓

Haf 2023: Ymgynghoriad Cam 2 ar gynigion manwl

↓

Deddfwriaeth a'r trefniadau cyflawni ar gyfer y diwygiadau cychwynnol

↓

1 Ebrill 2025: Dyddiad gweithredu posibl y diwygiadau cychwynnol

Ystyried dewisiadau amgen hirdymor ar yr un pryd (treth gwerth tir leol, systemau heb fandiau)

# Y Bandiau a'r Cyfraddau Treth

Mae'r bennod hon yn ceisio barn ar y canlynol:

- Ailbrisio eiddo, creu bandiau a chyfraddau treth newydd
- Sefydlu cylchoedd ailbrisio treigl
- Sut y caiff estyniadau/gwelliannau i eiddo eu hystyried
- Hawliau apelio trethdalwyr, gwella tryloywder a rhannu rhagor o ddata.

Nod unrhyw newidiadau yn y dyfodol fyddai creu treth gyngor decach a mwy blaengar drwy ailddosbarthu'r baich treth yn decach rhwng aelwydydd. Rydym yn ceisio barn gyffredinol ar yr adeg hon cyn ystyried cynigion penodol maes o law.

## Ailbrisio eiddo, creu bandiau a chyfraddau treth newydd

### Y sefyllfa bresennol

Mae tua 1.5 miliwn o anheddau domestig yng Nghymru sy'n agored i dalu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo ei osod yn un o naw band treth, sef A i I, ar sail gwerthoedd eiddo ar **1 Ebrill 2003**, sef y tro diwethaf i sylfaen y dreth gyngor gael ei diweddaru yng Nghymru. Fel rhan o'r ymarfer hwn, a ddaeth yn weithredol o 1 Ebrill 2005, ychwanegodd Llywodraeth Cymru fand treth newydd (Band I) ar gyfer yr eiddo mwyaf gwerthfawr.

Cyflwynwyd system y dreth gyngor am y tro cyntaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ar 1 Ebrill 1993. Ar y pryd, roedd prisiadau eiddo ym mhob un o'r tair gwlad yn seiliedig ar y farchnad dai ar 1 Ebrill 1991. Cymru yw'r unig wlad sydd wedi diweddaru ei phrisiadau ers hynny, sy'n golygu bod biliau treth gyngor yn Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar brisiadau yn 1991.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn asesu gwerthoedd eiddo ac yn gosod pob eiddo mewn band. Mae gan bob band gyfradd dreth sy'n gymharol â'r pwynt canol, sef band D, a nodir y cyfraddau treth hyn mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pennir tâl band D ar gyfer pob ardal leol yn lleol gan gynghorau fel rhan o'r broses o bennu eu cyllidebau blynyddol.

Dengys Tabl 1 y naw band treth presennol a'r bil cyfartalog a bennir gan gynghorau yng Nghymru fel canran o werth eiddo, ar gyfer pobl sy'n talu bil treth gyngor llawn heb unrhyw ddisgowntiau neu ostyngiadau. Mae bron i hanner yr aelwydydd yng Nghymru (48%) yn cael rhyw fath o gymorth. Serch hynny, ystyrir bod y cyfraddau treth fel canran o werth eiddo yn anflaengar, am eu bod yn gosod baich gymharol fwy ar bobl sy'n byw yn y cartrefi lleiaf gwerthfawr.

**Tabl 1: Bandiau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, 2022-23**

| Band | Gwerthoedd eiddo 1 Ebrill 2003 | *Gwerthoedd eiddo yn ôl prisiadau presennol | Treth gyfartalog heb gynnwys disgowntiau | Cyfradd dreth mewn cymhariaeth â band D | Y gyfradd dreth amcangyfrifedig fel % o'r gwerth | % y cartrefi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | Hyd at £103,000 | £1,185 | 6/9 | 2.3% | 14% |
| B | £44,001 i £65,000 | £103,001 i £146,000 | £1,382 | 7/9 | 1.1% | 21% |
| C | £65,001 i £91,000 | £146,001 i £201,000 | £1,580 | 8/9 | 0.9% | 22% |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **£201,001 i £263,000** | **£1,777** | **9/9** | **0.8%** | **16%** |
| E | £123,001 i £162,000 | £263,001 i £356,000 | £2,172 | 11/9 | 0.7% | 13% |
| F | £162,001 i £223,000 | £356,001 i £490,000 | £2,567 | 13/9 | 0.6% | 8% |
| G | £223,001 i £324,000 | £490,001 i £710,000 | £2,962 | 15/9 | 0.5% | 4% |
| H | £324,001 i £424,000 | £710,001 i £954,000 | £3,554 | 18/9 | 0.4% | 1% |
| I | Dros £424,000 | Dros £954,000 | £4,147 | 21/9 | <0.5% | 0.4% |

*Ffynhonnell: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2022)

Mae taliadau'r dreth gyngor yn amrywio yn ôl ardal cyngor fel y'i nodir yn Atodiad A, e.e. mae tâl band D yn amrywio o £1,573 yng Nghaerffili i £2,099 ym Mlaenau Gwent. Mae'r amrywiadau hyn i'w priodoli'n rhannol i ad-drefnu llywodraeth leol a greodd ffiniau cynghorau newydd yn 1996 â sylfeini trethu amrywiol. Ni fyddai ailbrisio'r sylfaen drethu yn unig yn cael gwared ar y gwahaniaethau hyn. Fodd bynnag, mae treth gyngor band D gyfartalog yng Nghymru yn dal i fod £189 yn llai nag yn Lloegr.

## Yr achos dros newid

Er mai Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd wedi diweddaru ei bandiau treth gyngor ers y 1990au, nid yw'r dosbarthiad treth wedi'i ddiweddaru ers bron i 20 mlynedd. Nid yw'r bandiau yn adlewyrchu gwerthoedd tai presennol na'n dewisiadau mwyach a gwyddom fod yn farchnad eiddo yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers 2003. At hynny, ar hyn o bryd mae'r dreth gyngor a godir ar eiddo ym mand I deirgwaith a hanner cymaint â band A ac eto gallai cartrefi yn y band uchaf fod yn werth naw gwaith cymaint â'r rhai yn y band isaf.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi dadansoddi'r wybodaeth ddiweddaraf am eiddo yng Nghymru ac mae'n nodi bod y cysylltiad rhwng gwerthoedd eiddo a'r dreth a delir yn wahanol iawn i'r bandiau a grëwyd yn 2003. Nid yw gwerthoedd eiddo mewn rhannau gwahanol o Gymru wedi symud i'r un cyfeiriad yr un mor gyflym dros yr 20 mlynedd diwethaf ac mae gwybodaeth swyddogol am y farchnad yn cadarnhau hyn. Mae angen ailbrisio a diweddaru system y dreth gyngor er mwyn adlewyrchu dosbarthiad presennol cyfoeth.

Yn 2020, cynhaliodd yr IFS efelychiad o ymarfer ailbrisio'r dreth gyngor i Gymru. Dengys yr ymchwil fod prisiau eiddo wedi cynyddu'n sylweddol ers 2003. Gan ystyried y pandemig diweddar, diweddarodd yr IFS yn ymchwil hon ymhellach sy'n dangos bod prisiau eiddo wedi parhau i gynyddu rhwng 2019 a 2022. Mae ei adroddiad diweddaraf yn awgrymu bod prisiau tai ledled Cymru wedi cynyddu 150% rhwng 2003-2022. Mae'r symudiadau hyn yn amrywio'n fwy mewn cynghorau ar lefel ddaearyddol lai. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n byw mewn eiddo y mae ei werth

wedi cynyddu fwy na chyfartaledd Cymru ers 2003, yn debygol o fod yn talu llai o dreth gyngor nag y dylent, tra mae pobl eraill mewn eiddo nad yw ei werth wedi cynyddu yn unol â chyfartaledd Cymru wedi bod yn talu mwy nag y dylent.

Yn gyffredinol, daeth yr IFS i'r casgliad bod y dreth gyngor wedi dyddio, yn annheg ac yn ystumio'r farchnad dai. Mae'r IFS yn cydnabod bod y system yn llai anflaengar ar ôl i gynlluniau cymorth gael eu hystyried, er iddo ddod i'r casgliad y gellid gwneud y system greiddiol yn decach. Nododd ymchwil gan Brifysgol Sheffield hefyd fod prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu cryn dipyn ers 2003, gyda chynnydd mwy sylweddol mewn prisiau tai ym mhen isaf y farchnad eiddo. Daeth i'r casgliad hefyd y byddai ymarfer ailbrisio yn helpu i ailgydbwyso atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ledled Cymru.

**Cynnig**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ymarfer ailbrisio newydd er mwyn cywiro annhegwch yn y system a diweddaru'r bandiau er mwyn sicrhau ei bod yn decach i bawb. Byddai hyn hefyd yn ein galluogi i ychwanegu rhagor o fandiau at ben uchaf a phen isaf y raddfa er mwyn dosbarthu eiddo yn fwy manwl ac mewn ffordd fwy penodol. Gallai ychwanegu bandiau wneud y dreth gyngor yn fwy graddoledig drwy adlewyrchu'n agosach y cymysgedd o eiddo ledled Cymru. Gallwn newid y bandiau yn ôl yr angen er mwyn dod o hyd i'r bandiau mwyaf addas. Byddai gwelliannau ffisegol sylweddol sydd wedi'u gwneud i eiddo nad yw wedi'i werthu i berchennog newydd ers 2003, hefyd yn cael eu nodi yn llawn. Nid yw'n bosibl gwneud newidiadau o'r fath heb gynnal ymarfer ailbrisio.

Os yw gwerth eich eiddo wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf, fel sydd wedi digwydd yn achos y rhan fwyaf o eiddo, nid yw hyn, o reidrwydd, yn golygu y byddai eich bil treth gyngor yn cynyddu. Byddai ymarfer ailbrisio yn diweddaru band treth pawb a byddem yn dewis set newydd o fandiau yn seiliedig ar y data diweddaraf.

**Ni fyddwn yn ceisio cynyddu cyfanswm y dreth gyngor a godir yn gyffredinol gan dalwyr y dreth gyngor drwy'r ymarfer hwn.** Diben ymarfer ailbrisio yw ailddosbarthu'r baich treth rhwng aelwydydd yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am amgylchiadau economaidd.

**Effeithiau ar aelwydydd**

Mae'r Ymgynghoriad Cam 1 hwn yn ceisio barn gyffredinol ar y cynnig i ddiweddaru'r bandiau a'r cyfraddau treth er mwyn cyflawni ein nod o wneud y system yn decach ac yn fwy blaengar. Mae system decach yn gyffredinol yn golygu y bydd rhai aelwydydd yn talu llai nag y maent yn ei dalu ar hyn o bryd, y bydd rhai aelwydydd yn talu tua'r un peth ac y bydd aelwydydd eraill yn cyfrannu mwy. Bydd Ymgynghoriad Cam 2 yn cyflwyno cynigion manwl a byddwn yn gallu dadansoddi'r effeithiau ar aelwydydd yn fwy manwl.

Nodir y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael am effeithiau system raddoledig yn yr ymchwil y gwnaethom ei chomisiynu gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS), a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif, petai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ailbrisio gan gadw'r dull presennol o ymdrin â'r naw band, y byddai tua hanner yr eiddo yn symud bandiau, gyda 26% yn symud i fyny a 26% yn symud i

lawr a bron i hanner yn aros yn yr un band. Mae tystiolaeth yr IFS yn rhoi rhyw syniad o'r mathau o aelwydydd yr effeithir arnynt, gan gynnwys pensiynwyr, cyplau â phlant ac aelwydydd sy'n cynnwys mwy nag un teulu. Ar y cyfan, byddai effaith gyfartalog ymarfer ailbrisio yn agos at ddim ar draws pob math o aelwyd. Mae'r adroddiad yn cynnig amrywiaeth o opsiynau eraill ar gyfer bandiau, gan gynnwys ychwanegu bandiau a chyfraddau treth mwy graddoledig. Fodd bynnag, mae a wnelo'r amcangyfrifon hyn â'r farchnad eiddo ac incymau aelwydydd cyn y pandemig.

Petai ymarfer ailbrisio yn cael ei gynnal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddadansoddi'r effeithiau yn fanwl a, lle y bo angen, ystyried trefniadau trosiannol wedi'u targedu ar gyfer pobl y mae'n bosibl y bydd angen amser arnynt i addasu i unrhyw newidiadau. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi rhagor o fanylion am y math o drefniadau trosiannol y gellid eu rhoi ar waith ond hoffem gael eich barn ar y mater hwn.

Mae'r dreth gyngor hefyd yn cynnwys fframwaith manwl o gymorth i'r bobl sydd ei angen, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac amrywiaeth o ddisgowntiau ac eithriadau. Mae'r rhain yn dal i fod yn rhannau pwysig o'r system ac fe'u hystyrir ymhellach ym Mhenodau 2 a 3. Yn olaf, mae gennym gyfle i ystyried hawliau apelio trethdalwyr fel agwedd bwysig ar system dreth gyngor decach. Rydym yn trafod y fframwaith apelio yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**Effeithiau ar gynghorau**

Petai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ymarfer ailbrisio eiddo er mwyn creu bandiau a chyfraddau treth newydd, byddai cynghorau yn gweld newidiadau yn eu sylfeini trethu lleol ac, felly, newidiadau yn y refeniw a allai gael ei godi ym mhob ardal. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael effaith ailddosbarthiadol ar y Grant Cymorth Refeniw, sef y ffynhonnell fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru i gynghorau a ddyrennir gan ddefnyddio fformiwla fanwl gan ystyried y gallu lleol i godi adnoddau. Mae hyn yn golygu, yn dilyn ymarfer ailbrisio, petai sylfaen drethu cyngor yn lleihau, y byddai'n cael mwy o Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru, ar gyfartaledd, er mwyn gwneud iawn am y lleihad yn y refeniw a gesglid o'r dreth gyngor. Er ei bod yn bosibl y bydd mân effeithiau trosiannol oherwydd natur y data a ddefnyddir yn y fformiwla gyllido, ni ddylai fod unrhyw newid cyffredinol sylweddol yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghorau. Mae cynghorau yng Nghymru yn parhau i bennu taliadau'r dreth gyngor sy'n llai na'r rhai a godir yn Lloegr. Mae treth band D gyfartalog yng Nghymru £189 yn llai.

Mewn ymgynghoriad Cam 2 a gynhelir maes o law, disgwyliwn allu nodi'r effeithiau ar gynghorau yn fwy manwl ochr yn ochr â'n cynigion penodol. Mae adroddiad yr IFS yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr effeithiau posibl ar gyfer cynghorau unigol o dan amrywiaeth o senarios ar gyfer bandiau. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw drefniadau trosiannol sydd eu hangen er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno bandiau a chyfraddau newydd. Ceir trefniadau partneriaeth hirsefydlog rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyllid. Rydym yn gweithio’n agos gyda chynghorau er mwyn cytuno ar y fformiwla gyllido ar gyfer y Grant Cymorth Refeniw bob blwyddyn drwy Gyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau. Mae cynghorau eisoes yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch creu treth gyngor decach.

Dylai gwneud y system y dreth gyngor yn fwy graddoledig yn gyffredinol ddod â manteision ehangach i gynghorau. Byddai'n gwella amgylchiadau economaidd aelwydydd dan bwysau y mae angen mathau eraill o gymorth arnynt gan eu cyngor. Gallai hefyd leihau'r galw ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Byddwn yn gweithio gyda chynghorau i adolygu'r ffordd y gweinyddir y dreth gyngor fel gwasanaeth i drethdalwyr ac ystyried ble y gellid gwneud gwelliannau.

**Amseru**

Petai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ailbrisio, yn creu bandiau newydd ac yn dewis cyfraddau treth newydd er mwyn gwneud y system yn decach, byddai hwn yn ddarn helaeth o waith gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'n partneriaid mewn llywodraeth leol. Byddai angen inni gyflwyno corff o ddeddfwriaeth newydd a gwneud rhai newidiadau i drefniadau gweinyddol. Er mwyn cyflawni ein nodau erbyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol (2021-2026), rydym o'r farn y byddai 1 Ebrill 2025 yn ddyddiad addas i roi diwygiadau ar waith, gan greu system sy'n seiliedig ar werthoedd eiddo yng Nghymru ar 1 Ebrill 2023.

**Eich barn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried:

- cynnal ymarfer ailbrisio mewn perthynas â phob un o'r 1.5 miliwn o eiddo ledled Cymru am nad yw bandiau'r dreth gyngor wedi'u diweddaru ers bron i 20 mlynedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na allwn gyflawni ein nod o gyflwyno bandiau treth mwy graddoledig heb wneud hynny. Ni fyddem yn ceisio codi refeniw ychwanegol yn gyffredinol drwy'r ymarfer hwn.
- cyflwyno rhestr eiddo wedi'i diweddaru yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen, a fydd yn seiliedig ar brisiadau 1 Ebrill 2023. Dyma'r dyddiad cynharaf y gallem roi rhestr eiddo wedi'i diweddaru ar waith.
- ychwanegu rhagor o fandiau'r dreth gyngor a newid y cyfraddau treth a godir ar gyfer pob band, er mwyn gwneud y system yn fwy graddoledig, gan symud mwy o'r baich treth i ben uchaf gwerthoedd eiddo.
- rhoi cynllun rhyddhad trosiannol ar waith er mwyn hwyluso'r broses bontio i aelwydydd y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt.
- sicrhau nad effeithir ar refeniw cynghorau lleol yn gyffredinol, drwy ailddosbarthu Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf am eiddo.

Rydym yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y cynigion hyn. Rydym yn croesawu tystiolaeth am yr effaith bosibl ar aelwydydd a chynghorau lleol yn ogystal â'r rhesymeg dros newid o'r fath. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn pobl â phrofiad bywyd o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai â phrofiad o weithio gyda grwpiau o'r boblogaeth â nodweddion gwarchodedig.

**Cwestiwn 1**

Ar hyn o bryd, mae bandiau'r dreth gyngor yn seiliedig ar werthoedd eiddo o 1 Ebrill 2003, bron i 20 mlynedd yn ôl. A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarfer ailbrisio'r dreth gyngor yn 2025, gyda gwerthoedd eiddo yn seiliedig ar 1 Ebrill 2023, er mwyn

cynnal hygrededd y system a dosbarthu'r baich treth yn decach? Nid codi refeniw ychwanegol drwy'r ymarfer hwn fyddai'r diben.

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu rhagor o fandiau'r dreth gyngor (er enghraifft ym mhen uchaf a phen isaf y raddfa) ac ailosod y bandiau er mwyn gwneud y system yn fwy graddoledig?

**Cwestiwn 3**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried trefniadau trosiannol os bydd eu hangen i liniaru effaith diwygiadau. Pa ffactorau y dylem eu hystyried wrth lunio'r trefniadau hyn?

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno y dylid addasu Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru i gynghorau er mwyn ystyried newidiadau i'r refeniw a godir ym mhob ardal leol o ganlyniad i ddiwygiadau i'r dreth gyngor?

## Cynnal ymarferion ailbrisio treigl

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â chylchoedd ailbrisio mwy rheolaidd a threigl ar gyfer y dreth gyngor, fel rhan o'n nod o sicrhau bod y system yn parhau i fod yn deg yn y dyfodol.

**Y sefyllfa bresennol**

Ers 1993, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi ailbrisio eiddo domestig ar gyfer y dreth gyngor fel bod biliau yn seiliedig ar werthoedd eiddo yn 2003. Daeth yr ailbrisiad hwn yn weithredol o 2005 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddiweddaru prisiadau eiddo yn rheolaidd yn y dyfodol.

**Yr achos dros newid**

Mae bron i 20 mlynedd wedi mynd heibio ers i system y dreth gyngor gael ei hailalinio â'r farchnad eiddo. Yn gynharach yn y bennod hon, gwnaethom nodi ein bod yn ystyried ymarfer ailbrisio erbyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol (2021-2026), a fyddai'n gam pwysig ymlaen tuag at wneud y system yn decach. Hefyd, mae gennym gyfle prin i sicrhau bod y system yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, gan ymgorffori ein huchelgais i sicrhau tegwch ac osgoi gwyrdroadau a geir pan gaiff ailbrisiadau eu gohirio dros flynyddoedd lawer. Mae datblygiadau technolegol a'r cynnydd yn nifer y ffynonellau data am eiddo, ardaloedd lleol a marchnadoedd eiddo, yn golygu bod cynnal ymarferion ailbrisio mwy rheolaidd bellach yn fwy dichonadwy a chosteffeithiol nag erioed o'r blaen.

Un o uchelgeisiau allweddol y rhaglen ddiwygio yw cynnal, am y tro cyntaf yn hanes y dreth gyngor, gyfres o ymarferion ailbrisio rheolaidd. Mae nifer o ddadleuon y dylai cylchoedd ailbrisio treigl fod yn nodwedd statudol ar y dreth gyngor er mwyn sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y dyfodol, yn enwedig o safbwynt tegwch. Byddai

ymarferion ailbrisio treigl yn diogelu tegwch yn y system yn barhaus drwy sicrhau bod y baich treth yn cael ei rannu'n deg yn rheolaidd, yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf. Byddai'n darparu system amserol gyda'r cyhoedd yn rhyngweithio'n fwy â'r broses, a fyddai'n helpu i wella tryloywder gan sicrhau bod prisiadau eiddo yn amcangyfrifon cymaradwy. Byddai'n rhoi eglurder a sicrwydd i drethdalwyr a chynghorau, a fyddai, o ganlyniad, yn disgwyl i filiau'r dreth gyngor gael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai hefyd yn egluro'r gofynion gweithredol yn y dyfodol ar gyfer sefydliadau fel asiantaethau cynghori, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.

Y ddadl arferol a gyflwynir yw bod angen cylchoedd ailbrisio llai mynych ar gyfer system drethu â bandiau (fel y dreth gyngor bresennol) o gymharu ag un sy'n seiliedig ar werthoedd penodol. Y rheswm dros hyn yw y gellir darparu, i ryw raddau, ar gyfer newidiadau i werth eiddo, sydd i'w priodoli i newidiadau ffisegol a symudiadau ym mhrisiau'r farchnad, o fewn ystod y band heb fod angen i eiddo symud i fand arall. Mewn theori, petai gwerth pob eiddo yn newid i'r un graddau dros gyfnod penodol o amser, ni fyddai angen cynnal ymarfer ailbrisio, gan y byddai'r prisiadau wedi symud i'r un cyfeiriad yr un mor gyflym. Fodd bynnag, nid felly y mae rhwng ardaloedd lleol yng Nghymru neu lle mae eiddo wedi newid yn ffisegol, er enghraifft drwy gael ei ymestyn. Gwnaethom ddysgu o'r ymarfer ailbrisio diwethaf yn 2005 bod bandiau eiddo yn dyddio, gan gyflwyno annhegwch sy'n dod yn fwy amlwg wrth i amser fynd heibio. Nodir yr annhegwch hwn yn y dystiolaeth a ystyriwyd yn gynharach am y farchnad dai ac astudiaethau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield.

Mae llawer o opsiynau ar gyfer amlder cylchoedd. Mae barn rhanddeiliaid yn amrywio o bob blwyddyn i bob 10 mlynedd. Gellir ystyried bod 10 mlynedd yn gylch rhy hir o gofio mai nod ymarferion ailbrisio treigl yw creu treth gyfredol a theg. Yn y tymor byw, nid ystyrir bod modd cynnal ymarfer ailbrisio blynyddol gan y byddai'n golygu newid i ragamcanion o'r farchnad, yn hytrach na phrisiadau sy'n seiliedig ar werthiannau go iawn. Mae opsiynau eraill yn cynnwys cylch tair blynedd neu bum mlynedd. Fel arfer, cynhelir cylchoedd prisio ar gyfer eiddo annomestig ar gyfer y system ardrethi bob pum mlynedd ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i leihau'r cyfnod hwn i bob tair blynedd yn y dyfodol.

Byddai ymarferion ailbrisio treigl yn effeithio ar y broses apelio a'r ffordd y gweinyddir anghydfodau sy'n ymwneud â phrisiadau eiddo. Ceir dadleuon y gallai cylchoedd mynych leihau faint o apeliadau a gyflwynir yn gyffredinol dros y tymor hwy ond nid yw'r ddamcaniaeth hon wedi'i phrofi eto. Yn y tymor byrrach, bydd angen rhoi sylw dyledus i uchafbwyntiau ac isafbwyntiau mewn niferoedd sy'n gysylltiedig â chylchoedd ailbrisio rheolaidd.

Mae'r anfanteision posibl i ymarferion ailbrisio treigl yn cynnwys pan gynhelir cylch yn ystod cyfnodau o fywiogrwydd neu grebachu anarferol yn y farchnad oherwydd grymoedd economaidd. Rydym wedi gweld digwyddiadau fel hyn o'r blaen megis dirwasgiadau a phandemig byd-eang. At hynny, gall fod rhesymau gweithredol pam y gallai fod angen ailystyried ymarfer ailbrisio arfaethedig, gan gynnwys rhesymau sy'n gysylltiedig â seilwaith TG. Mae risgiau i ymarfer ailbrisio unrhyw bryd ac mae llywodraethau wedi aildrefnu neu wedi gohirio ymarferion ailbrisio ar gyfer trethi lleol o'r blaen lle mae rhesymeg glir a derbyniol dros wneud hynny.

**Eich barn**

Rydym o'r farn, lle y bo'n bosibl, y dylid cynnal ymarferion ailbrisio treigl ar gyfer y dreth gyngor o leiaf bob pum mlynedd i ddechrau, gan symud, o bosibl, tuag at sefyllfa lle y cânt eu cynnal bob tair blynedd neu hyd yn oed yn amlach dros y tymor hwy. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r manteision a'r anfanteision a helpu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i hwyluso cynnal cylchoedd byrrach. Rydym yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y mater hwn. Rydym yn croesawu tystiolaeth am yr effeithiau posibl ar aelwydydd a chynghorau, y rhesymeg dros newid o'r fath, yn ogystal â gwybodaeth am yr amgylchiadau lle mae'n bosibl na fydd ymarferion ailbrisio treigl yn gweithio. Rydym yn croesawu'n benodol farn ar y cyfnod o amser y dylid cynnal ymarferion ailbrisio rhyngddynt.

**Cwestiwn 5**

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarferion ailbrisio'r dreth gyngor yn aml o leiaf bob pum mlynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y caiff y baich treth ei rannu'n deg rhwng trethdalwyr yn rheolaidd?

## Newidiadau i eiddo

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid ailfandio eiddo pan gaiff gwelliannau ffisegol sylweddol eu gwneud iddo.

**Y sefyllfa bresennol**

Gellir symud eiddo i fand uwch neu is am fod ei faint neu ei strwythur mewnol wedi'i newid. Ar hyn o bryd, caiff adolygiad o eiddo ei sbarduno pan fu 'trafodiad perthnasol', er enghraifft pan werthir eiddo, a gall hyn beri i'r eiddo symud i fand uwch. Os bydd gwerth eiddo yn lleihau'n sylweddol, cynhelir adolygiad ar unwaith a allai arwain at newid ym mand y dreth gyngor.

I hwyluso'r broses hon, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan gynghorau lleol, Cofrestrfa Tir EM ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mewn achosion lle y caiff eiddo ei adolygu, caiff y prisiad newydd ei fesur bob amser yn ôl-weithredol yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyson â phob eiddo arall yn y system.

Mewn blwyddyn ailbrisio, byddai'r holl newidiadau i eiddo ers yr ymarfer ailbrisio diwethaf yn cael eu nodi a'u diweddaru p'un a oedd eiddo wedi cael ei werthu ai peidio.

**Yr achos dros newid**

Dadleuwyd bod y dull polisi presennol (y tu allan i flwyddyn ailbrisio) wedi creu annhegwch yn system y dreth gyngor rhwng eiddo a fu'n destun trafodiad ac eiddo na fu'n destun trafodiad. Gall prynwr eiddo sydd wedi'i ymestyn ac nad yw erioed wedi cael ei werthu ers 2005 ganfod, yn annisgwyl, fod y cartref y mae newydd ei brynu yn symud i fand treth uwch.

Mae eiddo sydd wedi'i newid ac y mae ei werth wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i hynny ond na fu'n destun trafodiad, yn cael ei nodi gan 'faner' ar y rhestr brisio. Ar hyn o bryd mae 58,000 o faneri ar restr treth gyngor Cymru o blith 1.5m o eiddo. Mae gwahanol sylwedyddion wedi codi'r cwestiwn ynghylch a ddylai eiddo sydd wedi'i newid gael ei adolygu pan gaiff ei newid, yn hytrach nag aros i drafodiad ddigwydd. Mae rhai yn awgrymu y gallai hyn wneud prisiadau yn decach hyd yn oed yng nghyd-destun prisiau eiddo 2003, am fod gwelliannau i gartrefi yn benderfyniadau ariannol pwysig y mae perchenogion tai yn aml yn eu gwneud yn lle symud i eiddo o faint gwahanol. Mae eraill yn awgrymu bod y dull polisi presennol yn golygu nad yw'n datgymell aelwydydd rhag gwneud gwelliannau, gan gydnabod eu bod yn talu trethi fel rhan o'r broses o wella eu heiddo (e.e. Treth Ar Werth).

Yn y system ardrethi domestig yng Ngogledd Iwerddon, anogir talwyr ardrethi i roi gwybod i Wasanaethau Tir ac Eiddo Gogledd Iwerddon am unrhyw newidiadau i'w heiddo a fyddai'n achosi iddo gael ei ailbrisio. Bydd Gwasanaethau Tir ac Eiddo yn ystyried a ddylid newid y rhestr brisio ac yn cyflwyno naill ai hysbysiad o benderfyniad i beidio â newid y rhestr neu dystysgrif newid y cofnod ar y rhestr, fel arfer o fewn tri mis. Daw newidiadau i wella eiddo sy'n cynyddu ei werth yn weithredol, fel arfer, ar 1 Ebrill ar ôl y newid, sy'n rhoi rhywfaint o amser i dalwyr ardrethi rag-weld bil ardrethi uwch.

Byddai diweddaru'r ddeddfwriaeth er mwyn dileu'r angen i drafodiad ddigwydd cyn y gellid ailfandio eiddo sydd wedi'i newid yn sylweddol, yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai unrhyw newidiadau a wneid ar eu pen eu hunain yn ymwneud â gwerthoedd 2003 oni fyddai'r newidiadau hynny yn cael eu gwneud ochr yn ochr ag ailbrisio'r dreth gyngor.

Fodd bynnag, petai Llywodraeth Cymru yn cynnal cylchoedd ailbrisio treigl fel y nodwyd uchod er mwyn sicrhau bod y dreth gyngor yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, mae rhesymeg wannach dros newid ein polisi ar newidiadau i eiddo, gan y byddai pob newid ffisegol yn cael ei nodi'n fwy rheolaidd beth bynnag.

### Eich barn

Rydym yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y cynnig i newid y ffordd y caiff eiddo ei ailfandio pan fydd wedi cael ei wella'n sylweddol. Rydym yn croesawu tystiolaeth am yr effaith y gallai unrhyw newidiadau i'n polisi presennol ei chael ar aelwydydd a chynghorau lleol yn ogystal â'r rhesymeg dros newid o'r fath.

### Cwestiwn 6

Pan gaiff eiddo ei wella'n sylweddol, dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y caiff eiddo ei adolygu ac, o bosibl, ei ailfandio, er enghraifft pan werthir eiddo i berchennog newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r polisi hwn newid yn y dyfodol.

## Diogelu Hawliau Pobl a Chreu Gwasanaeth Tryloyw sy'n seiliedig ar Ddata

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar sut y gellid gwella elfennau o system y dreth gyngor ac yn edrych ar bethau megis llifoedd gwybodaeth, llwyfannau digidol, hawliau apelio a helpu aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.

Bydd llwyddiant o ran creu system dryloyw ac effeithiol y gellir ymddiried ynddi yn dibynnu ar sut rydym yn dewis gweinyddu gwasanaeth treth gyngor i drethdalwyr. Os bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gyflwyno pecyn uchelgeisiol o ddiwygiadau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, cawn gyfle hefyd i wella agweddau eraill ar y system sy'n bwysig i'w thegwch yn gyffredinol. Rydym yn gweithio'n agos gyda chynghorau, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tribiwnlys Prisio Cymru a sefydliadau eraill yn barhaus ar heriau gweinyddol a lleol.

### Gwybodaeth fel ased

Mae cynghorau yn defnyddio gwybodaeth am amgylchiadau aelwydydd, bandiau eiddo, perchenogaeth neu feddiannaeth eiddo a manylion cynllunio er mwyn pennu atebolrwydd, anfon biliau a chasglu refeniw. Hefyd, mae gan gynghorau brofiad o asesu incymau ac amgylchiadau aelwydydd wrth gasglu ôl-ddyledion ac ystyried ceisiadau am ddisgowntiau, diystyriadau, eithriadau, premiymau, gostyngiadau neu gymorth dewisol. Rhaid sicrhau bod data yn llifo'n ddi-dor rhwng sefydliadau fel y sail i system gywir ac effeithiol ac, yr un pryd, ddiogelu preifatrwydd data unigolion.

Gall unrhyw un chwilio am wybodaeth am fandiau eiddo ar wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ond, ar hyn o bryd, mae'n gyfyngedig i gyfeiriad yr eiddo, band y dreth gyngor, dangosydd ynghylch a yw'r eiddo yn aros am adolygiad o'r band yn dilyn gwelliant ac a fu'r eiddo yn destun penderfyniad tribiwnlys. Dim ond yn ystod camau proses apelio ffurfiol neu pan fo trethdalwr yn gwneud cais ffurfiol am yr wybodaeth y caiff gwybodaeth fanylach am yr eiddo, megis y math o eiddo, ei faint a disgrifiadau eraill, ei rhannu â threthdalwr.

Byddwn yn ystyried sut i ddefnyddio gwybodaeth fel ased i wella system y dreth gyngor a'r gwasanaeth a ddarperir i drethdalwyr. Rydym yn credu y gallai elfennau o'r dreth gyngor gael eu moderneiddio a bod yn fwy tryloyw, gyda gwybodaeth hygyrch yn dod â gwasanaeth rheoli'r dreth gyngor sy'n seiliedig ar ddata i mewn i'r oes ddigidol a geo-ofodol. Gallem wella'r system er mwyn annog trethdalwyr i gymryd rhan yn fwy rheolaidd yn y broses, megis gwirio gwybodaeth am eu heiddo neu eu hamgylchiadau er mwyn helpu i sicrhau cywirdeb a phrosesau gweinyddol mwy didrafferth. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei diweddaru er mwyn dileu cyfeiriadau at ddeunyddiau print nad ydynt yn gyfredol mwyach a chydnabod y defnydd a wna cynghorau o sianeli digidol.

Ar hyn o bryd mae rhaglen sylweddol yn mynd rhagddi i drawsnewid technolegau sylfaenol Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i ddarparu gwell gwasanaeth i drethdalwyr yng Nghymru yn y dyfodol, ac yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth ehangach o ddewisiadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â systemau. Petai Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r

diwygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn, megis ymarfer ailbrisio, byddai'r ased gwybodaeth a gâi ei greu fel rhan o'r ymarfer hwnnw yn ddefnyddiol iawn. Byddem yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i wella gweithgarwch ymgysylltu â threthdalwyr, gan gynnwys rhannu mwy o ddata am eiddo yn gyhoeddus a rhannu mwy o ddata ag unigolion drwy lwyfannau digidol diogel er mwyn gwella dealltwriaeth.

**Hawliau apelio**

Mae trefniadau apelio yn rhoi hawliau pwysig i drethdalwyr herio agweddau penodol ar y system, megis eu band treth gyngor neu'r ffordd y cyfrifwyd eu hatebolrwydd, yn ogystal â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau perthnasol o dan amgylchiadau penodol. Wrth brynu cartref newydd neu symud i gartref newydd, mae gan drethdalwyr gyfnod o chwe mis pan allant gyflwyno cynnig i Asiantaeth y Swyddfa Brisio o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, p'un a ddylai eiddo gael ei gynnwys ai peidio, a oes camgymeriad wedi'i wneud neu a oes Tribiwnlys Prisio neu Uchel Lys wedi gwneud penderfyniad nad yw wedi'i weithredu. Gall cynghorau hefyd gyflwyno cynigion i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Os na ddeuir i gytundeb o fewn chwe mis, cyfeirir y mater at Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer gweithdrefnau manwl pellach, a allai arwain at wrandawiad a phenderfyniad tribiwnlys. Yn ogystal ag apeliadau, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ystyried ymholiadau anffurfiol ynglŷn â bandiau yn rheolaidd fel rhan o'r gwasanaeth a ddarperir ganddi i drethdalwyr yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau hyn am ddim i drethdalwyr.

Yn dilyn yr ymarfer ailbrisio a gynhaliwyd yng Nghymru ar 1 Ebrill 2005, roedd gan bob trethdalwr hawl awtomatig i herio eu cofnod ar y rhestr brisio newydd tan 31 Medi 2006 (18 mis). Gallai trethdalwyr hefyd herio rhestr brisio flaenorol 1993 tan 31 Rhagfyr 2005 (9 mis). Bydd dewisiadau i Lywodraeth Cymru os caiff ymarfer ailbrisio ei gynnal yn 2025 a byddwn yn ymgynghori ymhellach ar ein dull gweithredu yn ystod Cam 2. Os ein huchelgais yw creu cylchoedd ailbrisio treigl a gynhelir yn amlach, bydd angen inni ystyried yn ofalus y gweithdrefnau ar gyfer cau rhestrau prisio blaenorol i anghydfodau neu apeliadau dros gyfnod o amser, er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r system a'i bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i drethdalwyr.

**Dyled ac ôl-ddyledion**

Un o'r beirniadaethau o'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd delio â phroblemau dyled, yw y gall pobl ddod yn atebol am gyfanswm y bil blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol os byddant yn methu â thalu un rhandaliad. Mae cynghorau yn ymgysylltu ag aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi er mwyn helpu i atal problemau dyled rhag gwaethygu ac maent bellach yn defnyddio Protocol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a luniwyd yn 2019 mewn cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, cynghorau a Cyngor ar Bopeth Cymru. Fodd bynnag, mewn rhai achosion lle y gall pobl ddod yn atebol i dalu'r bil blynyddol yn annisgwyl yn gynharach yn y flwyddyn, rydym yn cydnabod ei bod yn annhebygol y gall unigolyn sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi dalu'r swm mwy hwn ac y bydd yn mynd i fwy o ddyled ac yn gorfod wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'r agwedd hon ar system y dreth gyngor yn cael ei chodi gan asiantaethau cynghori sy'n gweithio gyda phobl ledled Cymru.

Ochr yn ochr â diwygiadau eraill a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried a oes unrhyw newidiadau y gallwn eu gwneud i'r fframwaith cyfreithiol er mwyn helpu cynghorau i reoli'r gwaith o gasglu'r dreth gyngor mewn ffyrdd sy'n cydnabod amgylchiadau aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd talu eu bil. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y broses orfodi bresennol ac ystyried pa symiau y mae aelwydydd yn atebol i'w talu ar wahanol adegau yn y broses gasglu.

**Eich barn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella tryloywder a diogelu hawliau. Er y bydd ein Hymgynghoriad Cam 2, y bwriedir ei gynnal yn 2023, yn nodi unrhyw newidiadau yn fanylach, rydym yn ceisio barn ar yr adeg hon am y ffordd y defnyddir gwybodaeth, y fframwaith apelio ac unrhyw agwedd weinyddol arall ar system y dreth gyngor.

**Cwestiwn 7**

A oes gennych unrhyw farn am hawliau apelio trethdalwyr neu sut y caiff dyled treth gyngor ei reoli? Nodwch unrhyw syniadau sydd gennych i wella’r naill elfen neu’r llall.

**Cwestiwn 8**

Beth yw eich barn ar sut y gall Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, cynghorau neu sefydliadau eraill foderneiddio'r gwasanaeth a ddarperir i drethdalwyr a gwella tryloywder system y dreth gyngor?

# Disgowntiau, Personau a Ddiystyrir, Eithriadau a Phremiymau

Fel y nodwyd yn gynharach, mae system y dreth gyngor wedi sefyll prawf amser ers 1993, gan godi mwy na £2 biliwn y flwyddyn tuag at gost gwasanaethau hanfodol ledled Cymru. Mae llawer o'r trefniadau ar gyfer disgowntiau, diystyriadau ac eithriadau wedi bodoli ers i'r dreth gael ei chyflwyno yn 1993 ac mae angen inni sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i uchelgeisiau polisi presennol ac yn helpu i greu system decach. Byddwn hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer premiymau'r dreth gyngor fel rhan o'r gwaith hwn.

Yn yr Ymgynghoriad Cam 1 hwn, rydym yn ceisio eich barn ar yr hyn sy'n bwysig i chi, a pha grwpiau o bobl a ddylai gael cymorth i dalu'r dreth gyngor a pha fathau o eiddo a ddylai fod wedi'u heithrio rhag bod yn atebol i dalu'r dreth gyngor, yn eich barn chi. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion penodol ar hyn o bryd. Ein nod, wrth adolygu'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystyriadau, eithriadau a phremiymau, fyddai gwella a moderneiddio'r system er mwyn sicrhau ei bod yn cyfrannu at gyflawni ein nod o wneud y dreth gyngor yn decach. Gallai hyn gynnwys gwneud y system yn fwy hygyrch i drethdalwyr, annog pobl i fanteisio ar y cymorth y maent yn gymwys i'w gael, dileu'r stigma a all fod yn gysylltiedig â rhai mathau o gymorth a thargedu cymorth ac atebolrwydd yn fwy effeithiol. Mae gennym uchelgeisiau hefyd i'w gwneud yn haws i gynghorau a chyrff eraill weinyddu'r dreth gyngor. Rydym yn cydnabod bod rhai o'r nodau hyn yn debygol o fod yn cystadlu â'i gilydd a'i bod yn bosibl y bydd angen cyfaddawdu er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir. Bydd ymgynghoriad pellach a gynhelir maes o law yn nodi unrhyw gynigion yn fanylach.

## Y sefyllfa bresennol

Mae system y dreth gyngor yn gymwys i bob aelwyd ac, fel arfer, mae'n daladwy gan unrhyw un dros 18 oed sy'n berchen ar gartref neu'n rhentu cartref. Fodd bynnag, mae gan y system set o reolau sy'n ystyried gallu aelwyd i dalu'r dreth gyngor ac sy'n cydnabod y dylai rhai pobl neu dai fod wedi'u heithrio rhag ei thalu. Mae'r rheolau hyn yn lleihau anghydraddoldeb cyfoeth i raddau ac yn creu ffynhonnell sefydlog a dibynadwy o gyllid i wasanaethau.

Mae'n briodol bod y dreth gyngor yn adlewyrchu amgylchiadau'r aelwyd sy'n meddiannu eiddo. Mae'r rheolau yn tybio bod dau oedolyn neu fwy yn atebol i dalu'r dreth gyngor, sy'n golygu bod hanner y bil sylfaenol yn seiliedig ar fand y dreth gyngor a bod hanner y bil yn seiliedig ar amgylchiadau'r aelwyd. Ni chaiff unrhyw feddianwyr eraill eu cynnwys at ddibenion cyfrifo biliau'r dreth gyngor ond mae disgowntiau ar gael os mai dim ond un oedolyn atebol sy'n byw mewn eiddo. Mae gostyngiadau sy'n seiliedig ar incwm hefyd ar gael i aelwydydd cymwys.

<u>Disgowntiau</u>

Ceir dau ddisgownt statudol y mae'n rhaid eu cymhwyso at eiddo: y naill pan mai dim ond un preswylydd atebol sydd (y cyfeirir ato yn aml fel y disgownt oedolyn sengl neu’r disgownt person sengl) a'r llall sy'n gymwys i eiddo lle nad oes unrhyw

breswylwyr atebol (y cyfeirir ato yn aml fel y disgownt eiddo gwag). Mae 37% o anheddau yn destun un disgownt neu fwy ar hyn o bryd.

- Ar gyfer y ‘disgownt oedolyn sengl’, caiff y swm sy'n daladwy ei leihau 25%. Bydd tua 520,000 o aelwydydd ledled Cymru yn cael disgownt o 25% yn 2022-23.
- Ar gyfer y ‘disgownt eiddo gwag’, mae'r disgownt ar y swm sy'n daladwy yn cyfateb i ddwywaith canran y disgownt oedolyn sengl (50%). Bydd mwy na 3,300 o anheddau yn cael disgownt o 50% yn 2022-23.

Nid yw'r disgowntiau hyn yn golygu, o reidrwydd, mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo nac ychwaith fod yr eiddo yn wag. Mae'r disgowntiau hyn hefyd yn gymwys pan ‘ddiystyrir’ (na chyfrifir) un neu fwy o'r oedolion yn y cartref at ddibenion y dreth gyngor.

<u>Datgymhwyso disgownt</u>

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau hefyd i ragnodi dosbarthiadau o eiddo lle y gall cyngor leihau'r disgownt neu beidio â'i gymhwyso. Er enghraifft, gall cynghorau roi disgownt o 50% ar gyfer cartrefi gwag ond gallant hefyd ddewis lleihau'r disgownt neu beidio â'i gymhwyso, sy'n golygu mai cyfradd safonol y dreth gyngor sy'n cael ei chodi.

Ar hyn o bryd, rydym wedi penderfynu, os na fydd unrhyw breswylwyr atebol mewn eiddo, y gellir datgymhwyso'r disgownt o 50% neu ei leihau yn yr achosion canlynol.

Dosbarth A – eiddo nad yw'n unig breswylfa nac yn brif breswylfa person, sydd wedi'i ddodrefnu ac y gwaherddir ei feddiannu drwy gydol y flwyddyn yn ôl y gyfraith. Mae enghreifftiau yn cynnwys cartrefi tymhorol a chabanau gwyliau.

Dosbarth B – eiddo nad yw'n unig breswylfa nac yn brif breswylfa person, sydd wedi'i ddodrefnu ac *na* waherddir ei feddiannu drwy gydol y flwyddyn yn ôl y gyfraith. Mae enghreifftiau yn cynnwys ail gartrefi.

Dosbarth C – eiddo heb ei feddiannu a heb fawr o ddodrefn. Mae enghreifftiau yn cynnwys eiddo sy'n wag am fwy na 12 mis.

Ceir eithriadau i'r dosbarthiadau uchod lle na all cyngor ddewis lleihau'r disgownt o 50%. Mae'r eithriadau hyn fel a ganlyn.

- Llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiennir gan gwch – ni ellir lleihau'r disgownt o 50% ar gyfer lleoedd o'r fath.
- Unrhyw eiddo gwag pan fo’r cyn-feddiannydd wedi marw a phan mai ei gynrychiolydd personol yw'r person atebol, ac nad yw profiant na llythyrau gweinyddu wedi'u rhoi (am gyfnod o hyd at 12 mis).
- Unrhyw eiddo a adawyd yn wag am fod person yn byw mewn eiddo gwahanol sy'n gysylltiedig â swydd a ddarparwyd iddo at ddibenion gwneud ei waith.

**Gostyngiad Band Anabl**

Ceir rheoliadau ynglŷn â'r dreth gyngor ar gyfer eiddo sydd wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl ag anableddau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn lleihau'r dreth

gyngor sy'n daladwy ar yr eiddo o un band. Er enghraifft, os bydd yr eiddo wedi'i brisio ym mand C, caiff y bil ei godi fel petai ym mand B. Ar gyfer eiddo ym mand A, cymhwysir gostyngiad canrannol. Mae 12,600 o eiddo yn cael gostyngiad anabledd yn 2022-23. Ar gyfer y categori hwn, caiff y gostyngiad ei wneud i fand yr eiddo (yn hytrach na pherson) er mwyn cydnabod bod angen i rai pobl ag anableddau fyw mewn eiddo ag addasiadau penodol.

**Personau a Ddiystyrir**

Ar hyn o bryd, ceir 15 o gategorïau o bobl y gellir eu diystyru (peidio â'u cyfrif) wrth gyfrifo nifer y bobl sy'n byw mewn eiddo at ddibenion y dreth gyngor. Er enghraifft, os caiff un oedolyn sy'n byw mewn cartref lle y caiff dau oedolyn ei ddiystyru, bydd y disgownt oedolyn sengl o 25% yn gymwys. Os caiff pob un o'r oedolion sy'n byw mewn eiddo eu diystyru, bydd disgownt o 50% yn gymwys. Dangosir y categorïau isod.

1. Myfyrwyr: sy'n byw ar eu pen eu hunain neu gyda myfyrwyr eraill yn unig, neu sy'n byw mewn neuaddau preswyl.
2. Gwŷr neu wragedd, partneriaid sifil a dibynyddion myfyrwyr nad ydynt yn Ddinasyddion Prydeinig na chaniateir iddynt weithio na hawlio budd-daliadau.
3. Pobl â nam meddyliol difrifol: pobl sydd wedi cael tystysgrif feddygol yn nodi bod ganddynt gyflwr sy'n effeithio'n ddifrifol ar eu gweithrediad deallusol neu gymdeithasol ac sy'n cael budd-daliadau cymwys.
4. Gofalwyr: gofalwyr sy'n byw gyda'r cleient ac sy'n darparu o leiaf 35 awr o ofal yr wythnos (ond nad ydynt yn ŵr/gwraig, yn bartner nac yn rhiant i'r person y maent yn gofalu amdano).
5. Cleifion mewn cartrefi gofal neu hostelau sy'n darparu gofal.
6. Unigolion 24 oed neu iau sy'n gadael gofal.
7. Plant: 17 oed neu iau, neu rywun sy'n dal i fod yn gymwys i gael Budd-dal Plant.
8. Cleifion hirdymor mewn ysbyty.
9. Unigolion sy'n byw mewn hosteli a llochesi nos.
10. Carcharorion, pobl yn y ddalfa o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl a phobl yn y ddalfa sy'n aros i gael eu hallgludo.
11. Pobl mewn Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn.
12. Aelodau cymunedau crefyddol sy'n dibynnu ar y gymuned i ddiwallu eu hanghenion materol.
13. Pobl ifanc o dan 20 oed sy'n gadael yr ysgol/coleg (tan 1 Tachwedd ar ôl iddynt adael).
14. Aelodau lluoedd arfog sy'n ymweld, a'u dibynyddion.
15. Diplomyddion.

**Eithriadau**

Mae eiddo penodol wedi'i eithrio rhag talu'r dreth gyngor. Y gwahaniaeth rhwng diystyriadau ac eithriadau yw bod diystyriadau yn gymwys i bobl tra mae eithriadau yn gymwys i'r eiddo cyfan.

Ar hyn o bryd, ceir 24 o gategorïau o eithriadau sy'n cwmpasu 59,000 o eiddo yng Nghymru (4% o'r holl eiddo domestig). Mae rhai eithriadau yn gymwys am gyfnod penodol. Dangosir rhestr lawn o'r holl gategorïau yn Atodiad B ynghyd â nifer yr eiddo sydd wedi'u heithrio ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Mae nifer o eithriadau yn gymwys i eiddo heb ei feddiannu am resymau penodol e.e. am fod yr unigolyn a fyddai fel arall yn ei feddiannu yn yr ysbyty, dan gadwad neu'n cael / yn darparu gofal rywle arall. Mae eithriadau eraill ar gyfer eiddo a feddiennir gan bobl o dan 18 oed, pobl â nam meddyliol difrifol neu bobl o dan 25 oed sy'n gadael gofal yn unig neu eiddo a ddefnyddir ar gyfer llety'r lluoedd arfog. Mae dau o'r categorïau mwyaf o eithriadau ar gyfer eiddo a feddiennir gan fyfyrwyr yn unig ac eiddo gwag heb ddodrefn am hyd at chwe mis.

**Premiymau**

Gall cynghorau ddewis gosod premiwm treth gyngor o hyd at 100% ar eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn eu hardaloedd a gallant ddewis pennu gwahanol lefelau o bremiwm ar gyfer pob dosbarth. Y premiwm uchaf a ganiateir gan gynghorau fydd 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r disgresiwn a roddir i gynghorau godi premiwm yn adnodd i helpu cynghorau i wneud y canlynol:

- sicrhau bod cartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy;
- helpu cynghorau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.

Mae'r elfen hon o system y dreth gyngor yn galluogi cynghorau i ystyried yr amgylchiadau gwahanol ledled Cymru ac mewn ardaloedd lleol unigol. Ers 2017, pan ddefnyddiwyd y pwerau am y tro cyntaf, amcangyfrifir bod premiymau wedi galluogi cynghorau perthnasol i gasglu treth gyngor ychwanegol gwerth degau o filiynau er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol. Mae tua 15,300 o ail gartrefi a mwy na 6,700 o eiddo gwag hirdymor yn talu premiwm yn 2022-23. Anogir cynghorau i ddefnyddio'r refeniw ychwanegol i fynd i'r afael â materion tai yn eu hardaloedd.

<u>Eithriadau rhag talu premiymau</u>

Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn rhagnodi un dosbarth o eiddo neu fwy lle na all cyngor godi premiwm. Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o eithriadau. Mae dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn gymwys i eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Maent yn cynnwys eiddo sy'n cael ei farchnata i'w werthu neu ei osod, anecsau sy'n cael eu trin fel rhan o'r prif eiddo a'r rhai sy’n berchen i bobl yn llety'r lluoedd arfog rywle arall. Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 yn gymwys i ail gartrefi yn unig ac maent yn cynnwys lleiniau carafannau, cartrefi tymhorol y gwaherddir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn ac anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi. Ceir esboniadau manwl yn Atodiad B.

## <u>Yr achos dros newid</u>

Mae'r fframwaith a nodwyd uchod wedi bodoli, i raddau helaeth, ers 1993 ac ychwanegwyd ato yn raddol. Mae'r rheolau wedi mynd yn gymhleth ac yn aml mae'n anodd i aelwydydd eu deall ac i ymarferwyr eu gweithredu. Hefyd, cyfyngir ar ein gallu i newid y rheolau, drwy is-ddeddfwriaeth, a allai alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i newidiadau yn yr economi neu mewn cymdeithas yn y dyfodol. Hon yw'r adeg briodol i edrych o'r newydd ar y rheolau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n

gweledigaeth ar gyfer treth gyngor decach. Ystyrir pob categori o ddisgownt, personau a ddiystyrir, eithriad a phremiwm.

Efallai y bydd newidiadau yn un rhan o'r system yn gofyn am newidiadau i ddisgowntiau a diystyriadau eraill a bydd angen ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng y gwahanol feini prawf yn ofalus er mwyn lleihau cymhlethdod a'r potensial i osgoi talu'r dreth gyngor.

**Disgowntiau**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried deddfu er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i wneud newidiadau i'r disgowntiau statudol presennol yn y dyfodol drwy bwerau is-ddeddfwriaethol newydd. Gellir rhoi is-ddeddfwriaeth ar waith yn gyflymach ac mae'n fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n newid yn ein cymdeithas o gymharu â defnyddio deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'n dal i fod yn destun lefelau priodol o graffu cyhoeddus.

Gallai hyblygrwydd o'r fath, er enghraifft, alluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i wneud y canlynol:

- pennu amodau gwahanol ar gyfer y disgowntiau statudol.
- ychwanegu categorïau newydd o ddisgownt a chyfraddau sy'n wahanol i'r canrannau presennol, sef 25% neu 50%.
- dileu'r cysylltiad rhwng y disgownt oedolyn sengl a'r disgownt eiddo gwag, fel na fydd yn rhaid i'r disgownt eiddo gwag fod ddwywaith canran y disgownt oedolyn sengl. Byddai hyn, er enghraifft, yn ei gwneud yn bosibl i gyfraddau disgownt gwahanol gael eu pennu ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol.
- rhoi mwy o bwerau i gynghorau bennu cyfraddau lleol ar gyfer disgowntiau.

Byddai unrhyw newidiadau a ystyrid gennym yn ymwneud â'r disgowntiau statudol. Mae gan gynghorau eisoes bwerau disgresiwn ar wahân i dynnu unrhyw swm o filiau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo penodol neu ddosbarthiadau penodol eiddo yn eu hardaloedd (gan gynnwys lleihau bil i sero). Nid ydym yn cynnig y dylid diwygio'r disgresiwn lleol hwn am fod y pwerau hyn yn galluogi cynghorau i ymateb i amgylchiadau lleol penodol a mater i gynghorau yw penderfynu sut y dylent eu defnyddio.

**Personau a Ddiystyrir**

Byddwn yn adolygu'r rhestr o bersonau a ddiystyrir er mwyn ystyried a fyddai unrhyw newidiadau yn helpu i greu treth gyngor decach ochr yn ochr â diwygiadau eraill a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym hefyd yn ystyried a oes angen deddfwriaeth a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio teitlau personau a ddiystyrir a'r disgrifiadau ohonynt yn y dyfodol mewn ffordd fwy hyblyg. Er enghraifft, ein safbwynt presennol yw, er y gallai'r term 'â nam meddyliol difrifol' fod wedi bod yn dderbyniol 30 mlynedd yn ôl pan grëwyd y dreth gyngor, fod y term, o bosibl, yn amhriodol nawr ac y gall greu stigma sy'n atal y grŵp hwn o bobl sy'n agored i niwed rhag hawlio'r disgownt sydd ar gael iddynt. Bydd hyblygrwydd ychwanegol i ddiwygio teitlau a disgrifiadau yn ei gwneud yn bosibl i'r term hwn gael ei ddisodli gan un mwy priodol.

**Gostyngiad Band Anabl**

Ar gyfer y categori hwn, mae gostyngiad yn gymwys i fand treth gyngor eiddo er mwyn cydnabod bod angen i rai pobl ag anableddau fyw mewn cartrefi wedi'u haddasu. Fodd bynnag, gan fod y gostyngiad yn gymwys i fand yr eiddo (yn hytrach na gostyngiad canrannol), gall hyn fod yn anflaengar am ei fod yn darparu gostyngiadau mwy gwerthfawr ar gyfer eiddo mewn bandiau uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen iddi ddiwygio, symleiddio neu wella'r modd y mae eiddo sydd wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl anabl yn cael ei drin. Nid ydym yn cynnig y dylid dileu gostyngiadau i bobl ag anabledd sy'n byw mewn eiddo wedi'i addasu.

**Eithriadau**

Er bod rhesymau unigryw dros bob un o'r categorïau presennol, mae llawer wedi bodoli ers degawdau a gellir ystyried bod rhai yn llai perthnasol i uchelgeisiau polisi presennol. Ar y llaw arall, efallai y bydd angen categorïau newydd o eithriad neu'r rhyddid i gyfuno rhai o'r categorïau. Byddwn yn adolygu'r rhestr hon o eiddo a meddianwyr sydd wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor. Nid oes unrhyw gynigion penodol ar hyn o bryd ond rydym yn ystyried deddfu er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r categorïau o eithriadau yn y dyfodol. Gallai newidiadau gynnwys ychwanegu, diwygio neu ddileu rhai eithriadau neu newid y cyfnodau ar gyfer eithriadau sy'n gymwys am gyfnod penodedig.

**Premiymau**

Yn ystod haf 2021 gwnaethom ymgynghori ar bwerau disgresiwn cynghorau i godi premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Cafwyd bron i 1,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac, ar ôl ystyried yr ymatebion a thystiolaeth arall, yr uchafswm y gall cynghorau ei godi fydd 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Felly, nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r darpariaethau ar gyfer pennu premiymau ond byddwn yn ystyried eithriadau rhag y premiymau fel rhan o ddiwygiadau yn y dyfodol.

## Eich barn

Rydym yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y trefniadau presennol ar gyfer disgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau. Bydd ymgynghoriad pellach a gynhelir maes o law yn rhoi rhagor o fanylion am y cynigion. Rydym yn croesawu tystiolaeth ar yr adeg hon am effaith y trefniadau presennol a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau i'r polisïau hyn ei chael ar aelwydydd a chynghorau lleol yn ogystal â'r rhesymeg dros newidiadau o'r fath. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn pobl â phrofiad bywyd o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai â phrofiad o weithio gyda grwpiau o'r boblogaeth â nodweddion gwarchodedig.

**Cwestiwn 9**

Beth yw eich barn am y disgowntiau, y personau a ddiystyrir, yr eithriadau neu'r premiymau presennol? Er enghraifft, a yw'r rheolau presennol yn briodol ac yn addas at y diben, yn eich barn chi? A ydych yn credu bod angen newid unrhyw agweddau penodol ar y rheolau neu fod angen llunio rheolau newydd?

**Cwestiwn 10**

A ddylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i bennu'r rheolau ar gyfer disgowntiau ‘oedolyn sengl’ ac ‘eiddo gwag’ statudol?

**Cwestiwn 11**

Sut y gellid diwygio, symleiddio neu wella gostyngiadau yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo sydd wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl sy'n byw ag anabledd?

**Cwestiwn 12**

A ddylai Llywodraeth Cymru allu diwygio teitlau unrhyw ddisgowntiau, personau a ddiystyrir neu eithriadau a'r disgrifiadau ohonynt? A ddylai unrhyw rai o'r teitlau presennol gael eu newid, yn eich barn chi? Beth fyddai'n derm mwy priodol i'w ddefnyddio yn lle ‘â nam meddyliol difrifol’?

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae cynlluniau cymorth sy'n dibynnu ar brawf modd fel Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gwneud cyfraniad sylweddol at drechu tlodi ledled Cymru, gan gefnogi'r aelwydydd incwm isel sydd fwyaf agored i niwed. Yn achos Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, mae'r cynllun hefyd yn lleihau effeithiau anflaengar bandiau presennol y dreth gyngor. Mae'r cynllun wedi dod yn bwysicach fyth yn ystod yr argyfwng costau byw. Bron i ddegawd ar ôl rhoi ein cynllun cenedlaethol ar waith, mae gennym gyfle i'w adolygu'n fanwl, yng ngoleuni diwygiadau posibl eraill a nodir yn yr ymgynghoriad hwn a'n huchelgais i greu system decach a mwy blaengar.

Yn yr Ymgynghoriad Cam 1 hwn, rydym yn ceisio eich barn am yr hyn sy'n bwysig i chi o ran cefnogi aelwydydd incwm isel. Byddwn yn gweithio gyda chynghorau a gwasanaethau cynghori er mwyn ystyried opsiynau a chynnig newidiadau manylach mewn ymgynghoriad pellach a gynhelir maes o law. Rydym yn croesawu eich barn yn y cam cynnar hwn i lywio ein syniadaeth am ddyluniad y cynllun, gan gynnwys sut i leihau cymhlethdod a gwella prosesau gweinyddu.

## Y sefyllfa bresennol

Diddymodd Deddf Diwygio Lles 2012, a basiwyd gan Lywodraeth y DU, Fudd-dal y Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2013. O 1 Ebrill 2013 ymlaen, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddarparu cymorth i aelwydydd ar gyfer y dreth gyngor i gynghorau yn Lloegr. Trosglwyddwyd swm penodol o arian, a leihawyd 10% o gymharu â chost y cynllun, i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban er mwyn i'r llywodraethau datganoledig ddatblygu cynlluniau yn lle Budd-dal y Dreth Gyngor.

Lluniodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ymgynghorodd â threthdalwyr a sefydliadau ar sut y dylai'r cynllun hwn weithredu. Roedd pob un o'r ymatebion i'n hymgynghoriad yn 2012 o blaid sefydlu fframwaith cymorth cenedlaethol ac, ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Cafodd pob aelwyd gymwys ei throsglwyddo'n awtomatig i'r cynllun cenedlaethol newydd hwn. Roedd y rheoliadau yn debyg iawn i reolau blaenorol Budd-dal y Dreth Gyngor, er mwyn sicrhau bod aelwydydd yn parhau i gael yr hawl i gael cymorth i dalu eu hatebolrwydd treth gyngor.

Cafodd tua 268,000 o aelwydydd yng Nghymru ostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2021-22, yr oedd cyfanswm eu gwerth cofnodedig yn cyfateb i £288 miliwn. Ym mis Mawrth 2022:

- cafodd 104,000 o aelwydydd pensiynwyr ostyngiad.
- cafodd 164,000 o aelwydydd o oedran gweithio ostyngiad.
- ni thalwyd unrhyw dreth gyngor o gwbl gan 214,000 o aelwydydd.
- roedd 85% o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn byw mewn eiddo ym Mandiau A-C.
- roedd 33% o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn cael Credyd Cynhwysol.

Ers cyflwyno ein cynllun yn 2013-14, rydym wedi parhau i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed ac sydd ag incwm isel drwy gynnal hawliau llawn i gymorth. Rydym yn rhoi £244 miliwn i gynghorau bob blwyddyn er mwyn iddynt weithredu'r cynllun. Mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru ac yn helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag mynd i anawsterau ariannol, yn arbennig o ganlyniad i newidiadau i'r system les annatganoledig.

## Yr achos dros newid

Mae'n bosibl y bydd ein nod o wneud system ehangach y dreth gyngor yn fwy graddoledig i bobl â llai o gyfoeth, yn helpu i leihau'r pwysau ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda system fwy graddoledig, oherwydd yr amrywiaeth eang iawn o amgylchiadau a geir yn yr 1.5 miliwn o aelwydydd sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor, rydym yn disgwyl y bydd angen parhau i ddarparu cynllun er mwyn helpu aelwydydd incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor. Felly, byddwn yn manteisio ar y cyfle i wella dyluniad, prosesau gweinyddu a deddfwriaeth y cynllun yn ystod tymor y Senedd hon a mynd i'r afael â rhai o'i heriau hysbys.

### Nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth

Ar hyn o bryd, mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cefnogi tua 268,000 o aelwydydd cymwys ledled Cymru, gan ddarparu gostyngiad yn eu bil treth gyngor ac, mewn llawer o achosion, ei leihau i sero. Dengys ein hadroddiad blynyddol diweddaraf fod tua 20% o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn cael cymorth drwy'r cynllun hwn. Fodd bynnag, yn 2013 cafodd tua 325,000 o aelwydydd fudd o'r cymorth hwn. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai nifer y rhai sy'n hawlio o dan Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yng Nghymru fod mor isel â 55% i 65% o'r aelwydydd cymwys. Er bod hyn yn debyg i fudd-daliadau annatganoledig yn y DU, mae angen inni ganfod y rheswm dros y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael cymorth er gwaethaf pwysau economaidd a lefelau treth gyngor cynyddol.

Mae sicrhau bod pob aelwyd gymwys yn cael y cymorth i dalu'r dreth gyngor y mae ganddynt yr hawl i'w gael wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers inni sefydlu ein cynllun yn 2013. Rydym wedi lansio ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth gan gyrraedd mwy na 100,000 drwy wybodaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu, gwefan newydd a deunyddiau ymgyrchu i'w defnyddio gan randdeiliaid. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r niferoedd yn parhau i leihau. Wrth wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, byddem yn parhau i ganolbwyntio ar ymestyn cyrhaeddiad y cynllun.

### Credyd Cynhwysol

Ers 2014, mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol wedi effeithio ar incymau pobl yng Nghymru. Mae mwy na 33% o'r aelwydydd sy'n cael cymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn peri heriau ychwanegol am ei bod yn ofynnol i'r rhai a allai fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol wneud cais ar wahân am gymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno ar raddfa ehangach, mae'n

cyflwyno cymhlethdod i'r ffordd y mae pobl yn gwneud cais am gymorth a'r ffordd y cyfrifir faint o arian y maent yn gymwys i'w gael.

Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhyngwyneb rhwng system drethu leol ddatganoledig a system les annatganoledig y DU gyfan. Mae angen cryn dipyn o arbenigedd i ddeall y trefniadau hyn. Mae gan staff cynghorau a gwasanaethau cynghori brofiad o ddeall amgylchiadau cymhleth aelwydydd a defnyddio'r cynllun i gefnogi pobl sydd ei angen ond mae angen inni sicrhau y gall pawb fanteisio ar y cynllun.

Wrth inni ystyried sut i wella'r cynllun dros y blynyddoedd i ddod, bydd angen inni ystyried sut mae ein cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith Credyd Cynhwysol a newidiadau eraill i'r system les. Rydym am gael system sydd wedi'i moderneiddio, sy'n hawdd i'w defnyddio ac nad yw'n atal unrhyw un rhag arfer ei hawl ddilys i gael cymorth.

Dengys ein hymchwil annibynnol ddiweddar fod y broses o newid i Gredyd Cynhwysol yn effeithio ar gadernid aelwydydd a lefelau dyled aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Mae tystiolaeth bod gostyngiadau llai yn y dreth gyngor yn cael eu dyfarnu a bod ôl-ddyledion treth gyngor yn cynyddu wrth i aelwydydd newid i Gredyd Cynhwysol.

**Dyluniad y cynllun**

Gwyddom fod llawer o opsiynau ar gyfer gwella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am y mathau o newidiadau y byddwn, o bosibl, am eu hystyried yn ogystal â manylion effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth hollbwysig am y ffordd y gallai diwygio ein cynllun helpu i liniaru effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o bobl. Bydd angen i unrhyw newidiadau a wneir i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fod yn gymesur ac osgoi canlyniadau anfwriadol a chael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach gweinyddu'r cynllun, yn ogystal â diwygiadau eraill i'r dreth gyngor.

Bydd angen ystyried yn ofalus a oes angen inni ailystyried y cynllun mewn ffordd fwy sylfaenol er mwyn lliniaru effaith diwygiadau lles a helpu i wneud y dreth gyngor yn decach ac yn fwy blaengar. Er enghraifft, mae diwygio'r 'gyfradd dapro' a chyflwyno trothwy de minimis ar gyfer newidiadau mewn incwm er mwyn lleihau faint o ailfilio sydd ei angen (opsiynau a ystyrir yn fwy manwl gan Policy in Practice) yn opsiynau atyniadol i wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a lleihau costau gweinyddol. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn y mae diwygiadau o'r fath yn ei gyflawni. Mae dadleuon dros fod yn fwy beiddgar wrth ailddylunio'r cynllun. Er enghraifft, a ddylid cadw'r sail prawf modd ar gyfer asesu a yw aelwyd yn gymwys i gael gostyngiad? Mae cynlluniau sy'n dibynnu ar brawf modd yn rhai cymhleth i'w gweinyddu ac maent yn gofyn am lawer o wybodaeth fanwl gan ymgeiswyr, ond maent hefyd yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei dargedu tuag at bobl sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, wrth adolygu'r cynllun, gallai fod opsiynau eraill ar gyfer ei ddyluniad y gallem eu hystyried.

Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau pan wnaethom ymgynghori ar ddyluniad y cynllun gwreiddiol ar gyfer 2013. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr ystyriaethau polisi, ariannol a gweithredol sy'n ymwneud â darparu cymorth i dalu'r

dreth gyngor yng Nghymru a disgwyliadau o ran sut y gallai unrhyw gynllun newydd ar y pryd weithredu. Mae ein man cychwyn wedi symud ymlaen gryn dipyn ers i'r cynllun gael ei greu. Byddwn yn bwriadu i unrhyw drefniadau newydd ar gyfer cymorth i dalu'r dreth gyngor gynnal hawliau.

Serch hynny, mae materion gan gynnwys diogelu rhai grwpiau penodol o bobl sy'n agored i niwed, darparu cymhellion gwaith, cyflawni'n lleol, rôl darparwyr cyngor a lleihau costau gweinyddol yn dal i fod yn feysydd i'w hystyried ymhellach heddiw.

**Cynllun hyblyg**

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn un lle mae Gweinidogion Cymru yn gofyn i gynghorau weithredu cynlluniau lleol sy'n cynnwys amrywiadau bach i'r cynllun cenedlaethol. Mae hefyd yn atal y rheoliadau rhag cael eu diwygio yn ystod blwyddyn ariannol. Felly, ni fu'n bosibl i Lywodraeth Cymru ymateb yn ystod y flwyddyn i addasu'r cynllun er mwyn delio ag anghenion annisgwyl sy'n codi o newidiadau yn ein heconomi neu mewn cymdeithas, megis pandemig y coronafeirws a'r argyfwng costau byw.

Mae digwyddiadau diweddar wedi dangos bod angen inni allu diwygio'r rheoliadau mewn ffordd hyblyg er mwyn ymateb i sefyllfaoedd sy'n datblygu pan allwn wneud hynny, drwy ddarparu cymorth ychwanegol a sefydlogrwydd ar gyfer yr aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf. Rydym yn cynnig y dylid newid i system lle mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i lunio cynllun cenedlaethol y mae cynghorau yn eu gweinyddu'n lleol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r cynllun ymateb i'r hinsawdd gymdeithasol ac economaidd a'i gwneud yn haws i ymgeiswyr a gwasanaethau cynghori ei ddefnyddio.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gynghorau fabwysiadu cynllun lleol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r cynlluniau lleol yn cynnwys unrhyw benderfyniad lleol a wneir mewn perthynas â'r pedwar maes a nodir yn Nhabl 2. Os na fydd cyngor yn mabwysiadu cynllun lleol, ni ellir darparu'r meysydd hyn o hyblygrwydd lleol i breswylwyr.

Mae meysydd disgresiwn lleol lle y gall cyngor ddewis rhoi darpariaethau sy'n fwy hael na'r gofynion sylfaenol a nodir gan y cynllun cenedlaethol ar waith, fel a ganlyn.

**Tabl 2: meysydd disgresiwn lleol yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

| Hyblygrwydd Lleol | I ba raddau y'i defnyddir |
|---|---|
| **Cyfnod gostyngiad estynedig**<br>Gall cynghorau ymestyn y cyfnod lle mae gan ymgeiswyr yr hawl i barhau i gael gostyngiad o dan amgylchiadau penodol, y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos | Mae pob cyngor wedi cadw'r cyfnod hwn |
| **Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gwraig Weddw**<br>Gall cynghorau ddiystyru mwy na'r £10 statudol ragnodedig o'r arian a geir mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm | Mae pob cyngor yn ei ddiystyru'n llwyr |
| **Ôl-ddyddio ceisiadau**<br>Gall cynghorau ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod statudol o dri mis | Mae rhai cynghorau yn ôl-ddyddio ceisiadau y tu hwnt i'r tri mis safonol |
| **Hysbysiadau o benderfyniad**<br>Gall cynghorau ddarparu mwy na'r wybodaeth ofynnol a ragnodir fel rhan o'u gweithdrefnau hysbysu am benderfyniad | Mae cynghorau wedi mabwysiadu nifer o amrywiadau yn y maes hwn |

Am fod dull gweithredu gweddol gyson yn cael ei ddefnyddio yn y meysydd hyn, er mwyn lleihau cymhlethdod gweithredol, byddwn yn ystyried a allwn hwyluso prosesau gweinyddol drwy ymgorffori'r fath hyblygrwydd ychwanegol yn y cynllun cenedlaethol presennol, gan ddileu'r angen i gynghorau adolygu'r agweddau hyn bob blwyddyn.

Pan na fu'n bosibl inni ymateb yn ystod y flwyddyn er mwyn addasu'r cynllun i ddelio ag anghenion annisgwyl sydd wedi deillio o ddigwyddiadau nas rhagwelwyd, rydym wedi bod yn ddiolchgar bod cynghorau wedi ymateb yn gadarnhaol drwy ddefnyddio pwerau disgresiwn o dan Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r pwerau hyn yn galluogi cynghorau i wneud unrhyw aelwyd neu ddosbarth o annedd/aelwyd yn destun diystyriad o dan amgylchiadau penodol. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddileu'r pŵer hwn o ystyried y bydd angen hyblygrwydd o'r fath o hyd ar gyfer gostyngiadau yn y dreth gyngor ar gyfer amgylchiadau eraill.

## Eich barn

Rydym yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y trefniadau presennol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rydym yn croesawu tystiolaeth am effaith y trefniadau presennol a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau i'r polisïau hyn ei chael ar aelwydydd a chynghorau lleol yn ogystal â'r rhesymeg dros newid o'r fath. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn pobl â phrofiad bywyd o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai â phrofiad o weithio gyda grwpiau o'r boblogaeth â nodweddion gwarchodedig.

**Cwestiwn 13**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd angen parhau i roi cymorth i aelwydydd incwm isel dalu eu biliau treth gyngor. A oes gennych unrhyw farn ar ddyluniad y

cynllun presennol, gan gynnwys a ddylai barhau i fod yn ddibynnol ar brawf modd? A oes gennych unrhyw farn gyffredinol ar y cynllun?

**Cwestiwn 14**

A ddylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun cenedlaethol, i'w weinyddu'n lleol gan gynghorau, a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, petai angen?

**Cwestiwn 15**

A ddylai'r trefniadau lleol presennol fod yn rhan o'r cynllun cenedlaethol newydd er mwyn sicrhau cysondeb, tra'n cydnabod y bydd cynghorau yn cadw'r pwerau disgresiwn presennol o dan ddeddfwriaeth?

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**

Ar hyn o bryd, mae bandiau'r dreth gyngor yn seiliedig ar werthoedd eiddo o 1 Ebrill 2003, bron i 20 mlynedd yn ôl. A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarfer ailbrisio'r dreth gyngor yn 2025, gyda gwerthoedd eiddo yn seiliedig ar 1 Ebrill 2023, er mwyn cynnal hygrededd y system a dosbarthu'r baich treth yn decach? Nid codi refeniw ychwanegol drwy'r ymarfer hwn fyddai'r diben.

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu rhagor o fandiau'r dreth gyngor (er enghraifft ym mhen uchaf a phen isaf y raddfa) ac ailosod y bandiau er mwyn gwneud y system yn fwy graddoledig?

**Cwestiwn 3**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried trefniadau trosiannol os bydd eu hangen i liniaru effaith diwygiadau. Pa ffactorau y dylem eu hystyried wrth lunio'r trefniadau hyn?

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno y dylid addasu Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru i gynghorau er mwyn ystyried newidiadau i'r refeniw a godir ym mhob ardal leol o ganlyniad i ddiwygiadau i'r dreth gyngor?

**Cwestiwn 5**

A ydych yn cytuno y dylid cynnal ymarferion ailbrisio'r dreth gyngor yn aml o leiaf bob pum mlynedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y caiff y baich treth ei rannu'n deg rhwng trethdalwyr yn rheolaidd?

**Cwestiwn 6**

Pan gaiff eiddo ei wella'n sylweddol, dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y caiff eiddo ei adolygu ac, o bosibl, ei ailfandio, er enghraifft pan werthir eiddo i berchennog newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r polisi hwn newid yn y dyfodol.

**Cwestiwn 7**

A oes gennych unrhyw farn am hawliau apelio trethdalwyr neu sut y caiff dyled treth gyngor ei reoli? Nodwch unrhyw syniadau sydd gennych i wella’r naill elfen neu’r llall.

**Cwestiwn 8**

Beth yw eich barn ar sut y gall Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, cynghorau neu sefydliadau eraill foderneiddio'r gwasanaeth a ddarperir i drethdalwyr a gwella tryloywder system y dreth gyngor?

**Cwestiwn 9**

Beth yw eich barn am y disgowntiau, y personau a ddiystyrir, yr eithriadau neu'r premiymau presennol? Er enghraifft, a yw'r rheolau presennol yn briodol ac yn addas at y diben, yn eich barn chi? A ydych yn credu bod angen newid unrhyw agweddau penodol ar y rheolau neu fod angen llunio rheolau newydd?

**Cwestiwn 10**

A ddylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i bennu'r rheolau ar gyfer disgowntiau 'oedolyn sengl' ac 'eiddo gwag' statudol?

**Cwestiwn 11**

Sut y gellid diwygio, symleiddio neu wella gostyngiadau yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo sydd wedi'i addasu i'w ddefnyddio gan bobl sy'n byw ag anabledd?

**Cwestiwn 12**

A ddylai Llywodraeth Cymru allu diwygio teitlau unrhyw ddisgowntiau, personau a ddiystyrir neu eithriadau a'r disgrifiadau ohonynt? A ddylai unrhyw rai o'r teitlau presennol gael eu newid, yn eich barn chi? Beth fyddai'n derm mwy priodol i'w ddefnyddio yn lle 'â nam meddyliol difrifol'?

**Cwestiwn 13**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd angen parhau i roi cymorth i aelwydydd incwm isel dalu eu biliau treth gyngor. A oes gennych unrhyw farn ar ddyluniad y cynllun presennol, gan gynnwys a ddylai barhau i fod yn ddibynnol ar brawf modd? A oes gennych unrhyw farn gyffredinol ar y cynllun?

**Cwestiwn 14**

A ddylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun cenedlaethol, i'w weinyddu'n lleol gan gynghorau, a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn, petai angen?

**Cwestiwn 15**

A ddylai'r trefniadau lleol presennol fod yn rhan o'r cynllun cenedlaethol newydd er mwyn sicrhau cysondeb, tra'n cydnabod y bydd cynghorau yn cadw'r pwerau disgresiwn presennol o dan ddeddfwriaeth?

**Cwestiwn 16**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 17**

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisïau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 18**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

# Atodiad A: Amrywiadau Daearyddol yn y Sylfaen Drethu

Dengys Tabl 1 gyfanswm yr eiddo y mae'n rhaid talu'r dreth gyngor arnynt ledled Cymru ac yn ôl cyngor, yn ogystal â nifer yr eiddo sy'n cyfateb i Fand D a thâl Band D. Mae tâl band D yn amrywio o £1,573 yng Nghaerffili i £2,099 ym Mlaenau Gwent.

## Tabl 1: Eiddo Treth Gyngor yng Nghymru yn ôl Ardal Cyngor, 2022-23

| | Nifer yr anheddau domestig | Sylfaen drethu (Nifer yr eiddo sy'n cyfateb i Fand D) | Tâl Band D |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 35,366 | 32,392 | £1,738 |
| Gwynedd | 59,764 | 54,257 | £1,893 |
| Conwy | 57,731 | 52,062 | £1,803 |
| Sir Ddinbych | 45,963 | 41,219 | £1,853 |
| Sir y Fflint | 70,685 | 66,187 | £1,815 |
| Wrecsam | 61,158 | 54,815 | £1,741 |
| Powys | 65,658 | 63,842 | £1,814 |
| Ceredigion | 35,656 | 32,885 | £1,777 |
| Sir Benfro | 62,331 | 61,307 | £1,579 |
| Sir Gaerfyrddin | 89,281 | 76,614 | £1,780 |
| Abertawe | 114,686 | 96,491 | £1,782 |
| Castell-nedd Port Talbot | 66,941 | 49,635 | £2,012 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 65,558 | 55,968 | £1,951 |
| Bro Morgannwg | 61,073 | 63,578 | £1,751 |
| Rhondda Cynon Taf | 110,569 | 79,904 | £1,886 |
| Merthyr Tudful | 27,663 | 19,362 | £2,050 |
| Caerffili | 80,516 | 62,628 | £1,573 |
| Blaenau Gwent | 32,951 | 21,976 | £2,099 |
| Torfaen | 42,919 | 34,845 | £1,803 |
| Sir Fynwy | 43,381 | 47,851 | £1,847 |
| Casnewydd | 69,949 | 61,838 | £1,583 |
| Caerdydd | 163,206 | 151,329 | £1,640 |
| **Cymru** | **1,463,005** | **1,280,985** | **£1,777** |

Dengys Tabl 2 ganran eiddo'r dreth gyngor yn ôl band ac ardal cyngor. Er enghraifft, mae canran yr eiddo ym Mand D yn amrywio o 5% ym Mlaenau Gwent i 23% yng Nghaerdydd.

## Tabl 2: Canran Eiddo'r Dreth Gyngor yn ôl Band ac Ardal Cyngor, 2022-23

| | Nifer | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 35,366 | 14% | 19% | 19% | 21% | 16% | 8% | 3% | 0.5% | 0.2% |
| Gwynedd | 59,764 | 15% | 26% | 20% | 17% | 13% | 6% | 2% | 0.3% | 0.1% |
| Conwy | 57,731 | 9% | 14% | 27% | 21% | 16% | 9% | 3% | 0.7% | 0.3% |
| Sir Ddinbych | 45,963 | 9% | 16% | 32% | 17% | 12% | 8% | 4% | 0.7% | 0.4% |
| Sir y Fflint | 70,685 | 6% | 14% | 29% | 19% | 16% | 11% | 5% | 0.8% | 0.3% |
| Wrecsam | 61,158 | 7% | 21% | 28% | 17% | 13% | 8% | 4% | 1% | 0.5% |
| Powys | 65,658 | 9% | 14% | 20% | 16% | 19% | 14% | 6% | 0.9% | 0.3% |
| Ceredigion | 35,656 | 5% | 14% | 21% | 21% | 25% | 11% | 3% | 0% | 0.1% |
| Sir Benfro | 62,331 | 11% | 15% | 23% | 18% | 20% | 9% | 3% | 0.5% | 0.1% |
| Sir Gaerfyrddin | 89,281 | 10% | 27% | 21% | 16% | 15% | 7% | 2% | 0.3% | 0.1% |
| Abertawe | 114,686 | 15% | 25% | 22% | 15% | 11% | 7% | 3% | 1.0% | 0.5% |
| Castell-nedd Port Talbot | 66,941 | 20% | 41% | 18% | 11% | 7% | 2% | 1% | 0.2% | 0.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 65,558 | 16% | 23% | 22% | 17% | 12% | 7% | 2% | 0.4% | 0.2% |
| Bro Morgannwg | 61,073 | 2% | 11% | 23% | 19% | 17% | 12% | 10% | 4% | 1.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 110,569 | 42% | 23% | 16% | 8% | 6% | 3% | 1% | 0.2% | 0.1% |
| Merthyr Tudful | 27,663 | 51% | 24% | 8% | 8% | 6% | 2% | 1% | 0% | 0.0% |
| Caerffili | 80,516 | 19% | 33% | 23% | 12% | 8% | 3% | 1% | 0.1% | 0.1% |
| Blaenau Gwent | 32,951 | 58% | 25% | 8% | 5% | 3% | 1% | 0% | 0% | 0.1% |
| Torfaen | 42,919 | 14% | 31% | 28% | 10% | 10% | 5% | 2% | 0% | 0.1% |
| Sir Fynwy | 43,381 | 1% | 8% | 16% | 21% | 17% | 18% | 13% | 4% | 1.5% |
| Casnewydd | 69,949 | 10% | 22% | 26% | 18% | 12% | 8% | 4% | 0.8% | 0.3% |
| Caerdydd | 163,206 | 3% | 13% | 21% | 23% | 19% | 13.3% | 6% | 2% | 1% |
| **Cymru** | **1,463,005** | **14%** | **21%** | **22%** | **16%** | **13%** | **8%** | **4%** | **0.9%** | **0.4%** |

# Atodiad B: Rhestr o ddisgowntiau, personau a ddiystyrir, eithriadau a phremiymau

**Disgowntiau**

Dosbarth A – eiddo:

a) nad yw'n unig breswylfa nac yn brif breswylfa person
b) sydd wedi'i ddodrefnu;
c) y mae'r gyfraith yn gwahardd ei feddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth A yn cynnwys eiddo a ddefnyddir fel cartrefi tymhorol, er enghraifft cabanau gwyliau.

Dosbarth B – eiddo:

(a) nad yw'n unig breswylfa nac yn brif breswylfa person
(b) sydd wedi'i ddodrefnu;
(c) *nad* yw'r gyfraith yn gwahardd ei feddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth B yn cynnwys eiddo sy'n ail gartrefi.

Dosbarth C – eiddo:

(a) heb ei feddiannu
(b) heb fawr o ddodrefn.

Mae Dosbarth C yn cynnwys eiddo yr ystyrir ar hyn o bryd ei fod yn eiddo gwag hirdymor (mwy na 12 mis).

Ceir eithriadau i'r dosbarthiadau uchod lle na all cyngor ddewis lleihau'r disgownt o 50%. Mae'r eithriadau hyn fel a ganlyn.

- Llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiennir gan gwch – ni ellir lleihau'r disgownt o 50% ar gyfer lleoedd o'r fath.
- Unrhyw eiddo gwag pan fo’r cyn-feddiannydd wedi marw a phan mai ei gynrychiolydd personol yw'r person atebol, ac nad yw profiant na llythyrau gweinyddu wedi'u rhoi (am gyfnod o hyd at 12 mis).
- Unrhyw eiddo a adawyd yn wag am fod person yn byw mewn eiddo gwahanol sy'n gysylltiedig â swydd a ddarparwyd iddo at ddibenion gwneud ei waith.

**Personau a Ddiystyrir**

| Categori | Disgrifiad | Nifer a ddiystyrir yn 2021-22 |
|---|---|---|
| Myfyrwyr | Myfyrwyr amser llawn; nyrsys dan hyfforddiant; person ifanc ar un o gynlluniau hyfforddi neu brentisiaethau'r Llywodraeth; Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor ar raglen swyddogol y Bristish Council | 8,428 |
| Â nam meddyliol difrifol | Rhywun sydd â nam meddyliol difrifol ac sy'n cael budd-daliadau cymwys | 6,845 |
| Gweithwyr gofal | Gweithiwr gofal sy'n byw gyda'r cleient | 2,935 |
| Cleifion mewn cartrefi gofal | Unigolyn sy'n preswylio mewn cartref gofal; rhywun sy'n byw mewn hostel sy'n darparu gofal | 1,534 |
| Unigolion lle mae budd-dal plant yn daladwy | Unrhyw un 17 oed neu iau; rhywun 18 oed sy'n dal i fod yn gymwys i gael Budd-dal Plant | 682 |
| Unigolion dan gadwad | Carcharor neu rywun dan gadwad sy'n aros i gael ei allgludo neu o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl | 108 |
| Unigolion sy'n byw mewn anheddau penodol | Rhywun sy'n aros mewn hostel neu loches nos | 80 |
| Cleifion yn yr ysbyty | Claf hirdymor mewn ysbyty | 61 |
| Dosbarth A – Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn | | 1 |
| Dosbarth B – Cymunedau Crefyddol | Aelod o gymuned grefyddol sy'n dibynnu ar y gymuned i ddiwallu ei anghenion materol | 94 |
| Dosbarth C – Unigolion sy'n gadael yr ysgol neu goleg | Diystyrir unigolyn dan 20 oed sy'n gadael yr ysgol neu goleg ac a adawodd yr ysgol neu goleg ar ôl 30 Ebrill, tan 1 Tachwedd | 148 |
| Dosbarth D – Lluoedd arfog sy'n ymweld | Aelod o lu arfog sy'n ymweld, a'i ddibynyddion | - |
| Dosbarth E – Gwŷr neu wragedd, partneriaid sifil a dibynyddion myfyrwyr | Priod, partner sifil neu ddibynnydd myfyriwr nad yw'n Ddinesydd Prydeinig ac na chaniateir iddo/iddi, o dan reolau mewnfudo, weithio yn y DU na hawlio budd-daliadau | - |
| Dosbarth F – Diplomyddion | Diplomyddion a phobl sydd ag imiwnedd diplomyddol | - |
| Dosbarth G – Unigolion sy'n gadael gofal | Unigolyn 24 oed neu iau sy'n gadael gofal | 139 |

**Eithriadau**

| Dosbarth | Disgrifiad | Nifer wedi'i eithrio yn 2022-23 |
|---|---|---|
| A | Eiddo anaddas i fyw ynddo ac eiddo gwag sy'n destun gwaith addasu strwythurol neu waith atgyweirio. Mae'n gymwys am hyd at 12 mis os bydd yr eiddo yn parhau i fod yn wag a heb ddodrefn | 4,069 |
| B | Eiddo heb ei feddiannu sy'n perthyn i elusen, am hyd at chwe mis ers y tro diwethaf iddo gael ei feddiannu | 41 |
| C | Eiddo gwag a heb ddodrefn am hyd at chwe mis ar ôl i'r eiddo ddod yn wag | 14,866 |
| D | Eiddo heb ei feddiannu am fod yr unigolyn a fyddai fel arall yn ei feddiannu dan gadwad o dan ddeddfiadau penodol | 194 |
| E | Eiddo heb ei feddiannu am fod yr unigolyn a fyddai fel arall yn ei feddiannu yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal | 2,828 |
| F | Eiddo heb ei feddiannu pan nad yw profiant na llythyrau gweinyddu wedi'u rhoi eto, ac am hyd at chwe mis ar ôl i brofiant neu lythyrau gweinyddu gael ei roi/eu rhoi | 7,543 |
| G | Eiddo heb ei feddiannu y gwaherddir ei feddiannu yn ôl y gyfraith | 579 |
| H | Eiddo heb ei feddiannu a ddelir ar gael i'w ddefnyddio gan weinidogion crefydd lle maent yn cyflawni eu dyletswyddau | 104 |
| I | Eiddo heb ei feddiannu am fod unig breswylfa neu brif breswylfa’r unigolyn atebol am y dreth rywle arall er mwyn iddo gael gofal | 337 |
| J | Eiddo heb ei feddiannu am fod unig breswylfa neu brif breswylfa'r unigolyn atebol am y dreth rywle arall er mwyn iddo ddarparu gofal | 110 |
| K | Eiddo heb ei feddiannu pan fo'r unigolyn atebol am y dreth yn fyfyriwr ac mae wedi bod yn fyfyriwr ers y tro diwethaf iddo feddiannu'r eiddo | 9 |
| L | Eiddo heb ei feddiannu sydd wedi'i adfeddu | 108 |
| M | Neuadd breswyl a ddarperir yn bennaf ar gyfer llety myfyrwyr | 3,368 |
| N | Eiddo a feddiennir gan fyfyrwyr, gwŷr neu wragedd tramor myfyrwyr neu unigolion sy'n gadael yr ysgol neu goleg yn unig | 16,734 |
| O | Llety'r lluoedd arfog | 835 |
| P | Llety lluoedd arfog sy'n ymweld | 3 |
| Q | Eiddo heb ei feddiannu a adawyd yn wag gan fethdalwr | 19 |
| R | Llain carafán neu angorfa cwch nas defnyddir | 185 |
| S | Eiddo a feddiennir gan bobl o dan 18 oed yn unig | 351 |
| T | Eiddo heb ei feddiannu sy'n rhan o un eiddo sy'n cynnwys eiddo arall ac na ellir ei osod ar wahân i'r eiddo arall heb dorri rheolau cynllunio | 376 |
| U | Eiddo a feddiennir gan bobl â nam meddyliol difrifol yn unig | 5,291 |

| Dosbarth | Disgrifiad | Nifer wedi'i eithrio yn 2022-23 |
|---|---|---|
| V | Eiddo lle mae o leiaf un unigolyn a fyddai fel arall yn atebol yn ddiplomydd | 2 |
| W | Eiddo sy'n rhan o un eiddo, gan gynnwys o leiaf un eiddo arall, ac sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa i berthynas dibynnol unigolyn sy'n byw yn yr eiddo arall (e.e. anecs) | 470 |
| X | Eiddo a feddiennir gan unigolyn neu unigolion sy'n gadael gofal o dan 25 oed yn unig | 764 |

**Eithriadau rhag talu premiymau**

| Dosbarth | Diffiniad | Cymhwyso |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Eiddo sy'n cael ei farchnata i'w werthu (am gyfnod penodedig o flwyddyn) | Rhaid i'r eiddo fod ar y farchnad i'w werthu am bris rhesymol |
| Dosbarth 2 | Eiddo sy'n cael ei farchnata i'w osod (am gyfnod penodedig o flwyddyn) | Rhaid i'r eiddo fod ar y farchnad i'w osod arm rent rhesymol, hynny yw, y rhent y disgwylid i'r eiddo ei gael o ystyried eiddo cymaradwy |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n cael eu trin fel rhan o'r prif eiddo | Pan fydd perchennog wedi addasu ei eiddo i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r prif eiddo |
| Dosbarth 4 | Yn llety'r lluoedd arfog rywle arall | Eiddo a fyddai'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa i berson, ond sydd heb ei feddiannu am fod y person yn byw yn llety'r lluoedd arfog |
| Dosbarth 5 | Lleiniau carafannau ac angorfeydd cychod a feddiennir | Mae'n cynnwys llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiannir gan gwch |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol y gwaherddir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn | Mae'n cynnwys cartrefi gwyliau neu gabanau gwyliau a adeiladwyd i'r pwrpas sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn |
| Dosbarth 7 | Anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi | Pan fo'n ofynnol i unigolyn fyw mewn eiddo sy'n gysylltiedig â swydd. Mae'n gymwys i ail gartref a feddiennir yn gyfnodol am fod angen i unigolyn fyw mewn llety sy'n gysylltiedig â swydd rywle arall neu pan fo’r llety sy'n gysylltiedig â swydd yn ail gartref i unigolyn |

# Atodiad C: Fframwaith Cyfreithiol y Dreth Gyngor

### Bandiau ac ailbrisiadau

Nodir sail system y dreth gyngor yng Nghymru yn Neddfau Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a 1992. Cyllid a Thollau EM (CThEM) sy'n gyfrifol am brisio eiddo, gyda'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n un o asiantaethau gweithredol CThEM.

Gall Gweinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1992, baratoi'r ffordd ar gyfer ailbrisio sylfaen y dreth gyngor. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ailbrisio eiddo yng Nghymru, a byddai hyn yn cael ei gynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn unol â'r tybiaethau a'r egwyddorion a bennir gan y Gweinidogion.

Mae'r fframwaith yn pennu cyfyngiadau penodol o ran amseru a chyflawnadwyedd. Mae adran 22B(3) o Ddeddf 1992 yn nodi bod yn rhaid i Orchymyn gael ei osod gerbron y Senedd er mwyn cychwyn ymarfer ailbrisio, sy'n nodi'r dyddiad pan ddaw rhestr brisio newydd i rym. Rhaid i brisiadau newydd gael eu gwneud drwy gyfeirio at Ddyddiad Prisio Rhagflaenol er mwyn sicrhau bod pob eiddo yn cael ei brisio ar yr un adeg. Mae adran 21(2A)(b) o Ddeddf 1992 yn nodi bod yn rhaid i'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol fod o fewn cyfnod o ddwy flynedd cyn i restr newydd gael ei chyhoeddi. Er enghraifft, mae'r rhestr brisio bresennol, a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2005, yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad a 1 Ebrill 2003 fel y Dyddiad Prisio Rhagflaenol.

Gall Llywodraeth Cymru gynnal ymarferion ailbrisio at ddibenion y dreth gyngor yn rheolaidd gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes i wneud Gorchmynion o dan 22B(3) o Ddeddf 1992 ar adegau a bennir gan Weinidogion. Byddai sefydlu cyfres ddiffiniol statudol o ymarferion ailbrisio rheolaidd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.

### Newidiadau i eiddo

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle y gellir newid band treth gyngor. Mae un o'r amgylchiadau yn Rheoliad 4 yn ymdrin â chynnydd sylweddol yng ngwerth annedd. Er mwyn i'r rhestr brisio gael ei newid, fel arfer rhaid bod trafodiad perthnasol wedi digwydd hefyd fel y'i diffinnir yn adran 24(10) o Ddeddf 1992 (er enghraifft, gwerthu eiddo).

### Apeliadau

Mae adran 16 o Ddeddf 1992 yn darparu ar gyfer apeliadau i dribiwnlys prisio. Mae adran 24 o Ddeddf 1992 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â newidiadau i restrau prisio, gan gynnwys darpariaeth ynglŷn ag apelio i dribiwnlys prisio yn erbyn dilysrwydd cynigion prisio neu gywirdeb y rhestr. Mae Adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 yn ymdrin â mater darparu gwybodaeth gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

**Disgowntiau**

Mae adran 11 o Ddeddf 1992 yn rhagnodi disgowntiau a roddir i anheddau ag un preswylydd atebol yn unig (y cyfeirir atynt fel y disgownt oedolyn sengl neu'r disgownt person sengl) ac anheddau heb unrhyw breswylydd atebol (y cyfeirir ato fel y disgownt eiddo gwag).

Mae adran 12 o Ddeddf 1992 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Reoliadau, i ragnodi un dosbarth o annedd neu fwy lle y caiff cyngor leihau neu ddatgymhwyso disgownt neu beidio â gwneud hynny. Mae tri dosbarth o anheddau wedi'u rhagnodi ag eithriadau ac fe'u nodir yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998.

Mae adran 13 o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn ag anheddau sydd wedi'u haddasu i'w defnyddio gan bobl anabl. Mae'r rhain wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau ar gyfer Anableddau) 1992.

**Gostyngiadau dewisol**

Mae adran 13A o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau disgresiwn i gynghorau leihau atebolrwyddau i dalu'r dreth gyngor i'r fath raddau ag sy'n briodol yn eu barn nhw (gan gynnwys i sero). Mae'r pwerau hyn yn galluogi cynghorau i leihau'r biliau treth gyngor ar gyfer aelwydydd penodol neu ddosbarthiadau penodol o anheddau neu aelwyd.

**Personau a Ddiystyrir**

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1992 yn rhagnodi personau a ddiystyrir at ddibenion disgownt ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi amodau. Mae'r rhain wedi'u rhagnodi yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) 1992. Mae paragraffau 11 a 12 o Atodlen 1 i'r Ddeddf hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Reoliadau, i ychwanegu categorïau o ddiystyriadau ac eithrio'r personau hynny rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol. Mae'r rhain wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy’n Ymadael â Gofal) (Cymru) 2022

**Eithriadau**

Mae adran 4 o Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, drwy orchymyn, gategorïau penodol o annedd fel rhai sydd wedi'u heithrio at ddibenion y dreth gyngor. Mae'r rhain wedi'u rhagnodi yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992.

**Premiymau**

Diwygiodd Deddf Tai 2014 Ddeddf 1992 drwy fewnosod adrannau newydd 12A a 12B er mwyn galluogi cyngor yng Nghymru i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (y cyfeirir atynt fel arfer fel ail gartrefi). Mae adrannau 12A(4) a 12B(5) o'r Ddeddf hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Reoliadau, i ragnodi un dosbarth o annedd neu fwy lle na chaiff cyngor

godi premiwm. Mae'r rhain wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015.

**Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor**

Mewnosododd Adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 ac Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, Adran 13A newydd ac Atodlen 1B newydd yn Neddf 1992. Roedd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod cynghorau yng Nghymru yn rhoi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar waith a rhagnodi cynnwys cynlluniau o'r fath drwy reoliadau.